



**Gweinyddiaeth
CYFIAWNDER**

Cosbi a Diwygio: Gwasanaethau Prawf Effeithiol

Papur Ymgynghori CP7/2012

Mae'r ymgynghoriad hwn yn dechrau ar 27 Mawrth 2012

Daw'r ymgynghoriad hwn i ben ar 22 Mehefin 2012

Mawrth 2012



Cosbi a Diwygio: Gwasanaethau Prawf Effeithiol

Cyflwynwyd i'r Senedd
gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros
Gyfiawnder ar Orchymyn Ei Mawrhydi

Mawrth 2012

© Hawlfraint y Goron 2012

Cewch aildefnyddio'r wybodaeth hon (heblaw logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. I weld y drwydded hon, ewch i <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/> neu e-bostiwch: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Lle'r ydym wedi nodi deunydd gyda hawlfraint trydydd parti, bydd angen ichi ofyn am ganiatâd gan y rhai sy'n dal yr hawlfraint honno.

Dylech anfon unrhyw ymholiad mewn perthynas â'r cyhoeddiad hwn i effectiveprobationservices@justice.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lawrlwytho yn www.official-documents.gov.uk ac ar ein gwefan yn www.justice.gov.uk

Cyhoeddwyd y fersiwn Saesneg o'r cyhoeddiad hwn gan y Llyfrfa dan gyfeirnod ISBN 9780101833325 ac ID 2483819 03/12

Am yr ymgynghoriad hwn

At:	Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i anelu at weithwyr proffesiynol gwasanaethau prawf, dioddefwyr, y farnwriaeth, darparwyr gwasanaethau, defnyddwyr a rhanddeiliaid eraill. Rydym hefyd yn gwahodd y cyhoedd i ymateb.
Parhad:	Rhwng 27 Mawrth 2012 a 22 Mehefin 2012
Ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau i dderbyn y papur mewn fformat arall) at:	Effective Probation Services Ministry of Justice Post Point 8.20 102 Petty France Llundain SW1H 9AJ Ffôn: 020 3334 6584 E-bost: effectiveprobationservices@justice.gsi.gov.uk
Sut i ymateb:	Dylech anfon eich ymateb erbyn 22 Mehefin at: Effective Probation Services Post Point 8.20 Ministry of Justice 102 Petty France Llundain SW1H 9AJ Ffôn: 020 3334 6584 E-bost: effectiveprobationservices@justice.gsi.gov.uk
Ffyrdd ychwanegol o gyflwyno eich barn:	Gellir cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ar-lein hefyd yn https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/effective-probation-services . Cynhelir cyfres o ddigwyddiadau i randdeiliaid hefyd. I gael rhagor o wybodaeth, defnyddiwch y manylion cyswllt ar gyfer 'Ymholiadau' uchod.
Papur ymateb:	Bydd ymateb i'r ymarfer ymgynghori hwn yn cael ei gyhoeddi yn yr hydref yn: http://www.justice.gov.uk

Rhagair Gweinidogol

Dylai system cyfiawnder troseddol effeithiol gosbi pobl sy'n torri'r gyfraith a diogelu pobl sy'n cadw at y gyfraith. Eto, mae gan ein system ni wendidau mawr. Mae bron i hanner yr oedolion sy'n troseddu yn aildroseddu o fewn blwyddyn i adael y carchar. Mae'r ffigur hwnnw'n codi i dri chwarter y bobl ifanc a ddedfrydir i'w cadw dan glo. Tybir bod aildroseddu gan droseddwyr sy'n cael eu dedfrydu i lai na 12 mis yn y carchar yn costio hyd at £10 biliwn y flwyddyn i'r economi. Yn fwy difrifol fyth, heb eu cywiro, mae'r lefelau aildroseddu hyn yn golygu bod miloedd o bobl yn dioddef yn ddiangen oherwydd troseddu.

Dyma pam mae'r Llywodraeth wedi cychwyn ar ddiwygio'r cwbl – gan ddechrau drwy sicrhau bod y carchar yn rhywle lle mae gwaith a hyfforddiant ystyrlon yn digwydd, nid dim ond llaesu dwylo, a lle bydd llawer mwy o garcharorion yn gweithio wythnos waith lawn, ac yn cael eu talu yn ôl eu canlyniadau, fel bod y trethdalwr ond yn talu am wasanaethau adsefydlu sy'n gweithio. Ynghyd â gweithredu pendant mewn meysydd fel iechyd meddwl a phroblemau caethiwed, bydd y mesurau hyn yn helpu i leihau aildroseddu, gan amddiffyn y cyhoedd yn fwy effeithiol tra'n sicrhau bod troseddwyr yn cael eu cosbi'n briodol.

Ond ni all y newidiadau yr ydym yn eu cyflwyno orffen ar hynny. Y cam nesaf yn y broses ddiwygio yw dedfrydau yn y gymuned a gweithrediad y Gwasanaeth Prawf sy'n eu goruchwyllo. Yn y ddau gyhoeddiad hwn, yr ydym yn ymgynghori arnynt gyda'i gilydd, rwyf yn cyflwyno cynlluniau radical i wneud dedfrydau cymunedol yn fwy credadwy ac i ddiwygio'r gwasanaeth prawf fel ei fod yn fwy effeithiol wrth leihau troseddu, drwy ymestyn cystadleuaeth a sicrhau bod y gwaith o reoli troseddwyr risg is yn agored i arloesedd ac egni yr ystod ehangaf posib o ddarparwyr.

Rwyf eisoes wedi cyhoeddi y bydd y rhai a ddedfrydir i Gynllun Gneud lawn â'r Gymuned, yn y dyfodol, yn gorfod gweithio wythnos gynhyrchiol lawn o bum diwrnod a chwilio am waith, gan gyflawni miloedd o oriau o waith adeiladol fel glanhau sbwriel a graffiti. Rwyf hefyd wedi cyhoeddi cynlluniau i gynyddu'r cyrffyw hiraf i 16 awr y dydd am 12 mis.

Ond bwriadwn fynd ymhellach na hyn, nid er mwyn creu dewis arall yn lle dedfrydau o garchar byr, ond i roi sylw i'r ffaith bod cyfraddau aildroseddu ar gyfer dedfrydau cymunedol yn llawer rhy uchel o hyd, ac nad ydynt yn llwyddo i ennill ffydd y cyhoedd eu bod yn gosb effeithiol. Rwyf yn rhannu pryderon y cyhoedd y gall dedfrydau gynnwys dim ond cyfarfod wythnosol gyda'r swyddog prawf – ac yn y gorffennol bod troseddwyr di-waith a ddedfrydwyd i Gynllun Gwneud lawn â'r Gymuned wedi gorfod gweithio dim ond chwe awr yr wythnos.

Dan y cynigion yn yr ymgynghoriad byddwn:

- yn sicrhau bod elfen gosbi glir ym mhob gorchymyn cymunedol a wneir gan y llysoedd. Fel mater o egwyddor, mae'n briodol bod y rhai sy'n cyflawni troseddau'n disgwyl wynebu sancsiwn go iawn, ac un sy'n helpu i wneud iawn am y cam a wnaethant ag eraill.
- yn ymchwilio i greu atebion cosb gymunedol dwys a chadarn, y gallai'r llysoedd eu defnyddio gyda throseddwyr sy'n haeddu cosb sylweddol; ac
- yn cefnogi gwneud defnydd mwy creadigol o gosbau ariannol ochr yn ochr â'r gorchmynion cymunedol, gan sicrhau y gosodir hwynt ar y lefel iawn ac y gorfodir hwynt yn effeithiol.

Mae sicrhau bod dedfrydau cymunedol yn cynnwys elfen briodol o gosb yn gyfar i'n hymdrechion i sicrhau bod dedfrydau o garchar yn diwygio'n briodol. Ond nid y nod yn unig yw y bydd y dedfrydau hyn yn cael eu gweld yn gynyddol i fod yn gosb gredadwy, cadarn a chwyrn gan ddedfrydwyr, dioddefwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol. Mae'r cynigion yr ydym yn ymgynghori arnynt hefyd yn ceisio gwneud dedfrydau cymunedol yn fwy effeithiol o ran helpu drwgweithredwyr i gywiro eu ffyrdd.

Er enghraifft, bydd ymestyn y defnydd o gyrrfyw a thagio yn sicrhau bod troseddwyr oddi ar y strydoedd, na fedrant gymdeithasu gyda'r nos a bod ganddynt lai o gyfle i droseddu. Ond, drwy eu defnyddio'n greadigol, byddant hefyd yn cyfrannu at ddiwygio'r troseddwr – drwy sicrhau eu bod adref cyn eu hapwyntiad ar gyfer triniaeth gyffuriau, neu'n cymryd rhan mewn Cynllun Gwneud Iawn â'r Gymuned. Rydym yn cynnig ehangu ar ddefnyddio arferion cyfiawnder adferol sy'n golygu bod gan ddiodefwyr mwy o lais mewn datrys troseddau ac yn y system cyfiawnder troseddol yn gyffredinol, tra'n mynnu hefyd bod troseddwyr yn wynebu canlyniadau eu gweithredoedd. A bydd gorchmynion cymunedol yn parhau i geisio datrys y problemau a achosodd, neu a gyfrannodd at yr ymddygiad troseddol yn y lle cyntaf – fel cyffuriau, alcohol a phroblemau iechyd meddwl. Ym mhob un o'r meysydd hyn, mae cosb ystyrllon a diwygio'n cyd-fynd.

Rydym hefyd yn cynnig diwygiadau i'r Gwasanaeth Prawf. Credaf yn gryf ym mhowsigrwydd y gwasanaeth cyhoeddus hanfodol hwn tra'n cydnabod y gwaith rheng flaen rhagorol sy'n cael ei wneud gan bobl broffesiynol sy'n gweithio'n galed. Er bod y pwyslais yn sicr wedi symud oddi wrth gyflwyno gwasanaethau yn ganolog i'w cyflwyno'n lleol a bod llawer o enghreifftiau o arloesedd yn y gwasanaeth prawf, rydym eisiau gweld newid sylweddol sy'n gwneud defnydd llawn o arloesedd, arbenigedd a gwybodaeth leol pob sector – cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat – mewn ffordd sy'n croesawu cystadleuaeth ac sy'n wirioneddol yn agored i ffyrdd newydd o wneud pethau yn well.

Dan fy nghynlluniau, rydym eisoes wedi dechrau annog rheolwyr i wneud defnydd gwell o sgiliau a barn broffesiynol eu gweithwyr rheng flaen drwy gyflwyno Safonau Cenedlaethol llai rhagnodol i staff prawf a thrwy fod yn llai llym wrth reoli perfformiad. Yn awr, cynigiau edrych eto ar strwythur a threfniadaeth y gwasanaeth, gan roi'r pwys mwyaf ar ddiogelwch y cyhoedd.

Mae'r ymgynghoriad:

- yn ymestyn ymhellach yr egwyddor o gystadleuaeth a ddefnyddiwyd yn llwyddiannus gyda'r ystad carchardai yn y blynyddoedd diwethaf, i system rheoli troseddwyf fwy cymunedol. Cyflwynodd Deddf Rheoli Troseddwyf 2007 y sail ar gyfer y polisi hwn ac mae angen prysuro ei weithrediad;
- yn edrych ar sut orau i sicrhau bod y gwasanaeth prawf yn gallu gwneud defnydd o arbenigedd y sectorau gwirfoddol a phreifat. Mae hyn yn adeiladu ar bolisiâu presennol i dalu darparwyr dedfrydau cymunedol yn ôl eu canlyniadau;
- yn gweld yr Ymddiriedolaethau Prawf yn y dyfodol yn chwarae rôl fwy gyda chomisiynu gwasanaethau prawf a gystadlir, ac yn cael eu contractio i fod yn gyfrifol am bwysu am ganlyniadau gwell. Mae'n cynnig gwahanu, yn glir, y rôl gomisiynu oddi wrth y rôl o ddarparu'r gwasanaethau a gystadlir
- yn ymgynghori ar wahanol fodolau o oruchwylio gwasanaethau prawf, gan gynnwys rôl bosibl nes ymlaen i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ac i awdurdodau lleol.

Credaf mewn gwasanaethau a gystadlir fel ffordd o godi ansawdd gwasanaethau cyhoeddus. Gall ddarparu arloesi, perfformiad gwell a gwerth am arian. Dylai gwasanaethau gael eu hariannu gan drethdalwyr, ond dylid eu darparu gan bwy bynnag sydd fwyaf priodol i wneud hynny.

Dan fy nghynlluniau, bydd gan y sector cyhoeddus rôl bwysig a phendant o hyd – gan mai diogelwch y cyhoedd yw ein blaenoriaeth. Yn unol â'r model o gystadlu sydd ar waith gydag elfennau eraill o'r system gosbi, mae fy nghynlluniau'n rhagweld y bydd y cyfrifoldeb am fonitro'r troseddwyf sy'n peri'r risg uchaf, gan gynnwys y troseddwyf mwyaf difrifol a mwyaf treisgar, yn aros gyda'r sector cyhoeddus. Mae'r cynigion yn yr ymgynghoriad yn awgrymu rhoi'r gwaith o reoli troseddwyf risg isel ar y farchnad agored. Bydd y sector cyhoeddus hefyd yn cadw'r cyfrifoldeb o wneud rhai penderfyniadau lles cyhoeddus yn achos pob troseddwr, gan gynnwys asesu lefel y risg i gychwyn, cymryd camau lle torrir dedfrydau, a phenderfyniadau ynghylch galw troseddwyf yn ôl i'r carchar. Mae ein cynigion hefyd yn eithrio o gystadleuaeth y cyngor a roddir gan y gwasanaeth prawf i'r llys. Mae'r cyngor hwn yn ymwneud yn bennaf â phennu beth yw'r dedfrydau mwyaf priodol i'w rhoi i droseddwyf ac erlyn tor-dedfryd – sy'n gorfod aros gyda'r sector cyhoeddus.

Nod hyn oll yw rhyddhau system draddodiadol hen ffasiwn a chyflwyno ffyrdd newydd o weithio a darparu fydd yn helpu i arwain at leihau aildroseddu. Rhaid inni wneud hyn heb roi diogelwch y cyhoedd yn y fantol nac amharu ar berfformiad. Os gwnawn hyn yn iawn, bydd yn helpu i ddod â'r cyfnod o reolaeth gan wasanaethau cyhoeddus yn Whitehall i ben. Y wobr yn y pen draw yw Gwasanaeth Prawf mwy deinamig ac effeithiol – un sy'n cadw'r gorau o'r sector cyhoeddus, ond sydd hefyd yn elwa o syniadau arloesol a hyblygrwydd busnesau ac elusennau.

Nod y Llywodraeth yw diwygio dedfrydau cymunedol a gwasanaethau prawf fel y medrant gosbi a diwygio troseddwyf yn llawer mwy effeithiol. Nid opsiwn

yn lle dedfrydau o garchar byr yw dedfrydau cymunedol. Rhaid iddynt ddod yn opsiynau cosb mwy effeithiol ynddynt eu hunain os yw'r cyhoedd i gael mwy o ffydd ynddynt ac os ydynt i leihau'r siawns y bydd troseddwr yn cyflawni troseddau newydd yn erbyn dioddefwyr newydd. Bydd gwasanaeth prawf mwy modern, a ryddheir i ganolbwyntio'n ddi-baid ar y nod o leihau aildroseddu, yn gallu datgloi ffyrdd gwell o ddarparu'r dedfrydau hynny.

Kenneth Clarke
Arglwydd Ganghellor ac Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder

Mawrth 2012

Cynnwys

Rhagair Gweinidogol	1
1. Rhagarweiniad	6
2. Pwrpas a nodau'r adolygiad	7
3. Crynodeb o'r cynnig craidd	9
4. Gwasanaethau Prawf	11
5. Yr Achos Dros Newid	13
6. Ymestyn y cystadlu am wasanaethau prawf	15
7. Cystadlu a rheoli troseddwy'r yn effeithiol	18
8. Comisiynu gwasanaethau prawf yn effeithiol	21
9. Cyflwyno gwasanaethau prawf mwy amrywiol	25
10. Cryfhau darpariaeth leol	29
11. Y Camau Nesaf	32
12. Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb	33
Atodiad A – Geirfa o wasanaethau a thelerau prawf	34
Holiadur	38
Amdanoch chi	40
Manylion cyswllt / Sut i ymateb	41
Aseiad o Effaith	43
Y meini prawf ymgynghori	44

1. Rhagarweiniad

- 1 Mae'r papur ymgynghori hwn yn gosod allan casgliadau adolygiad mewnol gan yr Ysgrifennydd Gwladol o sut y gellir gwella gwasanaethau prawf¹ yng Nghymru a Lloegr. Y bwriad yw sicrhau bod gwasanaethau prawf yn gallu cyflawni'r canlyniadau cyfiawnder sy'n bwysig i ddiodefwyr a chymunedau yn well: amddiffyn y cyhoedd; lleihau aildroseddu a sicrhau bod troseddwy'r yn cael eu cosbi'n briodol.
- 2 Mae'r papur ymgynghori'n nodi cynigion clir i gwrdd â'r nodau hyn tra'n cynnig gwerth am arian gwell i'r trethdalwr hefyd. Mae arnom angen gwasanaethau o'r ansawdd iawn am y pris iawn sy'n cael eu darparu yn y lle iawn ar yr adeg iawn i gosbi a diwygio troseddwy'r. Gan hynny, mae ein cynigion yn cyd-fynd yn uniongyrchol â'n cynlluniau i wneud dedfrydau cymunedol yn fwy credadwy ac effeithiol. Maent hefyd yn helpu i ddarparu'r weledigaeth ar gyfer trawsnewid cyfiawnder a gyflwynir ym Mhapur Gwyrdd y Llywodraeth. *Torri'r Cylch: Cosbi, Adsefydlu a Dedfrydu Troseddwy'r yn Effeithiol:*
- 3 Rydym yn croesawu ystod eang o farn am y cynigion yn y ddogfen hon. Dylai eich **ymatebion ein cyrraedd erbyn 22 Mehefin 2012** drwy un o'r llwybrau ymgynghori a ddisgrifir yn yr Atodiad. Bydd gennym hefyd raglen o ymgysylltu gweithredol gyda rhanddeiliaid allweddol.

¹ Rhoddir ystyr 'gwasanaethau prawf' yn adran 4 ac yn yr Eirfa yn Atodiad A.

2. Pwrpas a nodau'r adolygiad

- 4 Ym mis Gorffennaf 2011, ysgrifennodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfiawnder yn ei hysbysu bod y Llywodraeth yn bwriadu adolygu ffurf y gwasanaethau prawf i'r dyfodol.
- 5 Roedd yr adolygiad, yn fuan iawn, wedi nodi tair egwyddor bwysig y byddid yn profi unrhyw gynigion yn eu herbyn:
 - dod ag ystod ehangach o gyrff o'r sectorau preifat, gwirfoddol a chymunedol, ac o'r sector cyhoeddus, i gystadlu i ddarparu gwasanaethau prawf i droseddwr, gyda darparwyr yn cael eu talu'n gynyddol yn ôl eu canlyniadau;
 - cryfhau'r trefniadau comisiynu yn y gwasanaeth prawf – sut ydym yn asesu pa wasanaethau sydd eu hangen i amddiffyn y cyhoedd a lleihau aildroseddu; sut ydym yn cynllunio a phrynu'r gwasanaethau hynny; ac yna sut ydym yn adolygu sut y darperir hwynt a'u heffeithiolrwydd²; a
 - gwella sut y darperir ac atebolrwydd gwasanaethau prawf ar lefel leol. Mae hyn yn cynnwys cyd-gomisiynu gyda phartneriaid fel awdurdodau lleol a'r GIG ar gyfer gwasanaethau fel tai a thriniaethau cyffuriau y gwyddom eu bod yn helpu i droi troseddwr i ffwrdd o droseddu.
- 6 Drwy wneud hyn, rydym wedi sicrhau bod ein cynigion yn adeiladu ar fwiadau Deddf Rheoli Troseddwr 2007 ('Deddf 2007'). Byddant hefyd yn cyfrannu'n sylweddol at yr ymrwymadau yn y Papur Gwyn ar *Wasanaethau Cyhoeddus Agored* i wneud gwasanaethau'n llai canolog ac yn fwy atebol i drethdalwyr, ac i'w hagor allan i ystod amrywiol o ddarparwyr. Rydym yn arbennig o awyddus i gefnogi datblygu modelau fel cyd-fentrau, mentrau cymdeithasol a gwasanaethau cyhoeddus cyd-fuddiannol sy'n annog rhoi mwy o rôl i'r gweithwyr.
- 7 Mae ein cynigion hefyd yn ystyried argymhellion gwerthfawr Adroddiad y Pwyllgor Cyfiawnder ar *Rôl y Gwasanaeth Prawf*³, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2011. Yn benodol, mae'r cynigion yn cwrdd â chais y Pwyllgor inni fod yn gliriach ynghylch ein bwriadau ar gyfer dyfodol y gwasanaeth prawf ac yn egluro pa elfennau prawf y credwn y gellid eu comisiynu gan ddarparwyr allanol.

² Edrychir yn fwy manwl ar gomisiynu gwasanaethau troseddwr yn *NOMS' 'Bwriadau Comisiynu NOMS' 2012-13*

<http://www.justice.gov.uk/about/noms/commissioning.htm>

³ <http://www.parliament.uk/business/committees/committees-a-z/commons-select/justice-committee/inquiries/rps/>

- 8 Mae Ymddiriedolaethau Prawf, fel Cyrff Cyhoeddus Anadrannol, yn destun y broses Adolygu Teirblynyddol, sy'n ystyried sut y darperir gwasanaethau, a ddylai cyrff cyhoeddus barhau i ddarparu gwasanaethau ac a ydyw'r trefniadau darparu ar gyfer y gwasanaethau hyn yn ddigon cadarn. Rydym wedi cytuno gyda Swyddfa'r Cabinet mai'r ymgynghoriad hwn fydd y cam cyntaf yn yr Adolygiad Teirblynyddol o Ymddiriedolaethau Prawf, gydag ymateb dilynol y Llywodraeth i'r ymgynghoriad yna'n sail i Gam 1 yr Adolygiad Teirblynyddol.

3. Crynodeb o'r cynnig craidd

9 Nodweddion allweddol ein cynnig craidd ar gyfer newid yw:

- Bwriadwn y bydd rôl gryfach i Ymddiriedolaethau Prawf y sector cyhoeddus fel comisiynwyr gwasanaethau prawf a gystadlir. Byddant yn atebol i'r Ysgrifennydd Gwladol am gyflawni canlyniadau gwell i amddiffyn y cyhoedd a lleihau aildroseddu;
- Byddwn yn datganoli'r gyllideb ar gyfer gwasanaethau troseddwr cymunedol i'r Ymddiriedolaethau Prawf, ac o'r gyllideb hon bydd yr Ymddiriedolaethau yna'n comisiynu gwasanaethau i gwrdd ag anghenion ac amgylchiadau lleol. Yr Ymddiriedolaethau sydd yn y sefyllfa orau i weithio gyda'r llysoedd a phartneriaid lleol i gyd-ddylunio a chyd-gomisiynu gwasanaethau;
- Fodd bynnag, mae'n bosib y bydd rhai gwasanaethau, megis monitro gofynion cyrffiw yn electronig, yn parhau i gael eu comisiynu ar lefel genedlaethol lle gallwn sicrhau'r gwerth am arian gorau i'r trethdalwr;
- Bydd yr Ymddiriedolaethau Prawf yn parhau i fod yn gyfrifol, yn achos pob troseddwr, am roi cyngor i'r llysoedd ar ddedfrydau ac am orfodi'r dedfrydau hynny. Yn gyson â rôl y gwasanaeth prawf o amddiffyn y cyhoedd, byddant yn gyfrifol am wneud rhai penderfyniadau 'lles y cyhoedd' yn achos pob troseddwr (fel yr asesiad risg cychwynnol a phenderfyniadau ynghylch galw'n ôl i garchar a thor-dedfryd). Byddant hefyd yn parhau i oruchwylio'n uniongyrchol y troseddwr hynny sy'n cyflwyno lefelau uwch o risg;
- Byddwn yn cynnig yr holl wasanaethau prawf na ddarperir hwynt yn uniongyrchol gan yr Ymddiriedolaethau Prawf ar gyfer cystadlu. Bydd hyn yn cynnwys cystadlu'r gwaith o reoli a goruchwylio troseddwr risg is, ynghyd â gwasanaethau eraill i ddiwygio troseddwr, fel rhaglenni achrededig. Gyda'i gilydd mae'r rhain yn cyfrif am tua 60% o'r gyllideb o £1 biliwn y flwyddyn ar gyfer gwasanaethau troseddwr cymunedol. Bydd y rhai sy'n darparu gwasanaethau a gystadlir yn cael eu cymell i leihau aildroseddu'n gynyddol yn ôl talu am ganlyniadau;
- I sicrhau marchnad amrywiol o ddarparwyr byddwn yn annog y sectorau gwirfoddol, preifat a chyhoeddus i gymryd rhan, ynghyd â modelau newydd o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus fel cydfentrau, mentrau cymdeithasol a chwmnïau cyhoeddus cydfuddiannol;
- Gall yr Ymddiriedolaethau Prawf ddewis cystadlu am wasanaethau. Yn yr achosion hyn, byddwn yn disgwyl iddynt ddod yn endidau ar wahân, annibynnol i'r Ymddiriedolaethau Prawf hynny sy'n gyfrifol am gomisiynu, rhoi cyngor i'r llysoedd, rheoli troseddwr risg uwch a

chymryd penderfyniadau lles y cyhoedd fel a ddisgrifir uchod. Credwn mai'r ffordd orau o gyflawni hyn fydd drwy sicrhau 'rhaniad llawn rhwng y prynwr a'r darparwr'; a

- Rydym am gryfhau rôl gwasanaethau prawf lleol fel rheng flaen y gwaith o reoli troseddwy. Byddwn yn sicrhau bod ein cynigion yn hwyluso gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid lleol tra'n cefnogi blaenoriaethau lleol fel rhan o'r agenda diogelwch cymunedol gyffredin. Byddwn yn cefnogi cyd-gomisiynu gwasanaethau i droseddwy rhwng y gwasanaethau prawf a phartneriaid allweddol fel awdurdodau lleol, iechyd a'r heddlu.
- Efallai y bydd potensial ymhen amser i gyrff cyhoeddus eraill, fel awdurdodau lleol neu Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (gyda rôl statudol ehangach) fod yn gyfrifol am wasanaethau prawf. Am y tro, cynigiwn wneud Ymddiriedolaethau Prawf yn atebol, drwy eu trefniadau cytundebol â'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwy (NOMS), am weithio gyda Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu.

4. Gwasanaethau Prawf

- 10 Yn yr ymgynghoriad hwn mae 'gwasanaethau prawf' yn cyfeirio at ystod eang o wasanaethau i gosbi a diwygio troseddwy'r a reolir yn y gymuned, fel a ganlyn:

Gwasanaethau a ddarperir gan Ymddiriedolaethau Prawf ar hyn o bryd:

- Gwaith Mechnïaeth a Llys
- Rheoli Troseddwy'r
- Goruchwylio ar ôl rhyddhau
- Gofyniad preswyllo
- Gofyniad Adsefydlu ar ôl bod yn Gaeth i Gyffuriau *
- Gofyniad Triniaeth Alcohol *
- Gofyniad Triniaeth Iechyd Meddwl *
- Asesiadau ac Adroddiadau
- Gofyniad goruchwylio
- Gofyniad gweithgaredd
- Rhaglenni Ymddygiad Troseddol
- Gofyniad Gwneud lawn â'r Gymuned (Gwaith Di-dâl)
- Adeiladau Cymeradwy
- Cyswllt â Dioddefwyr

* mewn cydweithrediad â darparwyr arbenigol

Wedi eu contractio allan:

Gofyniad cyrffiw ('monitro electronig')

Gwasanaethau Llety a Chymorth Mechnïaeth

Wedi eu darparu gan y sector gwirfoddol:

Adeiladau Cymeradwy (yn ogystal â'r rhai a ddarperir gan yr Ymddiriedolaethau Prawf)

Wedi eu darparu'n uniongyrchol gan y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwy'r (NOMS):

Canolfannau Ymbresenoli

- 11 Gyda'i gilydd, mae'r gwasanaethau hyn yn costio tua £1 biliwn y flwyddyn ar hyn o bryd,⁴ gan gynnwys gwasanaethau cefn swyddfa a chymorth prawf eraill fel TG ac adeiladau. Mae hyn hefyd yn cynnwys y gost, i'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwy'r, o gefnogi gwasanaethau a ddarperir gan asiantaethau eraill, triniaethau cyffuriau

⁴ Trafodir hyn yn fwy manwl yn adran Tystiolaeth yr Asesiad o Effaith

er enghraifft. (Gweler yr Eirfa yn Atodiad A am eglurhad mwy manwl o'r termau a ddefnyddir).

5. Yr Achos Dros Newid

- 12 Roedd y Papur Gwyrdd *Torri'r Cylch* yn cyflwyno uchelgais y Llywodraeth i leihau aildroseddu, darparu gwell cosb ac amddiffyn y cyhoedd yn well.
- 13 Rydym yn dod yn ein blaenau'n dda gyda'n cynlluniau ar gyfer diwygio. Rydym yn gwneud carchardai'n llefydd i weithio ynddynt, lle bydd carcharorion yn gweithio oriau hirach ar dasgau ystyrllon. Rydym yn treialu adeiniau adsefydlu dwys mewn carchardai i gael troseddwr i roi'r gorau i alcohol a chyffuriau. Byddwn yn sicrhau bod troseddwr yn gwneud iawn priodol â dioddefwyr a chymunedau iddynt achosi niwed iddynt, yn gorfforol drwy waith cymunedol dwys ac yn ariannol drwy dalu dirwyon, iawndal a thrwy i ran o'u henillion gael ei dynnu allan a'i roi tuag at arian i ddioddefwyr. A byddwn yn chwilio am rôl gynyddol i gyfiawnder adferol. Mae ein cynigion i ddiwygio'r gwasanaethau prawf a chreu dedfrydau cymunedol mwy credadwy yn adeiladu ar y diwygiadau yn *Torri'r Cylch* ac yn disgrifio'n fwy manwl sut y bwriadwn wireddu'r uchelgais honno.
- 14 Mae amryw byd o staff prawf proffesiynol, ymroddedig a medrus yn helpu i gael troseddwr i wynebu'r hyn sy'n achosi eu troseddoldeb ac i drawsnewid eu bywydau. Mae'r 35 Ymddiriedolaeth Prawf presennol wedi gwneud ymdrechion caled i leihau aildroseddu. Yn y blynyddoedd diwethaf maent wedi gweld lleihad sylweddol mewn gwariant yn dilyn cyfnod o dwf. Gostyngodd y gyfradd aildroseddu ar gyfer oedolion sy'n troseddu a chyda gorchmynion llys o 39.9% yn 2003 i 34.1% yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2010. Mae prawf yn chwarae rôl hollbwysig mewn amddiffyn y cyhoedd, gan gynnwys rôl allweddol yn llwyddiant y Trefniadau Amddiffyn y Cyhoedd Aml-Asiantaeth (MAPPA) a'r cynlluniau Rheoli Troseddwr Integredig (IOM) lleol.
- 15 Mae hyn wedi bod yn gychwyn ond mae angen gwneud llawer mwy i ddiwygio'r system brawf:
- mae cyfraddau aildroseddu yn parhau i fod yn annerbyniol o uchel. Dengys y ffigurau aildroseddu diweddaraf (y flwyddyn hyd at ddiwedd mis Mawrth 2010) fod tua 36% o'r oedolion a ryddhawyd o'r carchar, neu a ddechreuodd orchymyn llys dan oruchwyliaeth y gwasanaeth prawf, wedi aildroseddu ymhén blwyddyn. Mae aildroseddu ymhlith rhai sydd â dedfryd o lai na 12 mis a heb unrhyw oruchwyliaeth statudol (ond sydd, er enghraifft, yn aml efallai'n grŵp targed blaenoriaeth dan drefniadau IOM lleol) yn uwch fyth ar bron i 60% ymhén blwyddyn. Yn hytrach, mae angen i'n diwygiadau eu hatal rhag aildroseddu cyn dod at y pwynt lle mai carcharu yw'r unig opsiwn;
 - mae gan yr Ymddiriedolaethau Prawf fonopoli bron ar ddarparu gwasanaethau prawf hyd heddiw. Mae hyn er gwaetha'r bwriad yn

- Neddf 2007 i gyflwyno llawer mwy o gystadlu, a thargedau a osodwyd gan y Llywodraeth flaenorol ar gyfer isgcontractio gwasanaethau i'r sector gwirfoddol;
- c) fel y mae'r Pwyllgor Cyfiawnder wedi ei nodi, nid ydym yn gwneud y defnydd gorau o amrywiol ddarparwyr i helpu i leihau troseddu. Yn benodol, mae angen inni wneud defnydd o fusnesau bach a chanolig a'r sector gwirfoddol, oherwydd gallai eu harloesedd, eu capasiti a'u hamrywiaeth helpu i wneud gymaint o wahaniaeth i adsefydlu troseddwy;
 - d) mae angen inni roi mwy o ddisgresiwn a rhyddid i ddarparwyr gyda dylunio a darparu gwasanaethau. Ar yr un pryd, rhaid inni eu dal yn fwy i gyfrif am leihau aildroseddu, drwy gymhwysu'r egwyddor o dalu pob un o'r darparwyr hyn yn ôl eu canlyniadau erbyn 2015;
 - e) mae angen i'r gwasanaeth prawf ymateb i drefniadaeth a strwythur newydd ei bartneriaid allweddol, fel cyflwyno Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu o fis Tachwedd 2012 ymlaen; ac
 - f) er yr arbedion a wnaed yn y blynyddoedd diwethaf yn dilyn cyfnod o dwf, credwn y gall y gwasanaeth prawf arbed mwy fyth eto, yn enwedig gyda'n gorbenion cefn swyddfa a rheoli. Mae angen inni leihau costau ymhellach fel rhan o arbedion cyffredinol sy'n ofynnol gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwy (NOMS), tra'n diogelu ein gwasanaethau rheng flaen i ddelio â throseddwy.
- 16 Rydym eisoes wedi gweld peth cynnydd gyda chwrdd â'r sialensau hyn. Rydym yn ymrwymedig i leihau biwrocratiaeth er mwyn hwyluso mwy o ddisgresiwn proffesiynol. Mae'r mesurau a gymerwyd eisoes yn cynnwys cyflwyno Safonau Cenedlaethol llai rhagnodol yn ddiweddar ar reoli troseddwy a symud at reoli perfformiad yn llai llym.
- 17 Hefyd, roedd ein *Strategaeth ar Gystadlu am Wasanaethau Troseddwy*, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2011⁵ yn nodi'n glir ein bod am annog mwy o rôl i'r sectorau preifat a gwirfoddol gyda diwygio troseddwy. Rydym eisoes wedi cystadlu'r gwasanaethau troseddwy cymunedol sy'n cyfrif am 25% o'r gyllideb flynyddol o £1 biliwn, gan gynnwys Monitro Electronig a Llety a Chymorth Mechnïaeth. Rydym hefyd wedi contractio allan ar gyfer ystadau, cyfleusterau a TG.
- 18 Er hynny, mae llawer mwy i'w wneud. Mae'r cynigion isod yn disgrifio sut y bwriadwn sicrhau bod y gwasanaeth prawf yn gallu cwrdd â'r sialensau sydd o'n blaenau.

⁵ <http://www.justice.gov.uk/downloads/publications/policy/moj/competition-strategy-offender-services.pdf>

6. Ymestyn y cystadlu am wasanaethau prawf

Manteision cystadlu

- 19 Roedd ein Strategaeth ar Gystadlu am Wasanaethau Troseddwr yn nodi'n huchelgais i gystadlu ein holl wasanaethau troseddwr oni bai fod rhesymau da dros beidio. Gwnawn hyn oherwydd y bydd cystadlu yn ein helpu i gyflawni'r newid sylweddol o ran diwygio, arloesi a chael gwerth am arian o'n gwasanaethau. Mae'r Swyddfa Masnach Deg⁶ wedi dangos sut y gall mwy o gystadlu fod yn sbardun i arloesi. Gall roi cymhelliad i ddarparwyr ganolbwyntio'n gryfach ar gwrdd ag angen. Gall helpu i leihau costau ac arwain at ddyrannu adnoddau'n fwy effeithlon rhwng darparwyr.
- 20 Rydym wedi gweld y manteision hyn wrth gystadlu gwasanaethau troseddwr. Mae cystadlu gwasanaethau carchardai, er enghraifft, gan gynnwys Gwasanaethau Carcharu a Hebrwng Carcharorion, wedi gwella canlyniadau, ysgogi mwy o effeithlonrwydd ac wedi arwain at enghreifftiau arloesol o ddarparu gwasanaeth. Mae comisiynwyr wedi'i ddefnyddio i ganfod y darparwyr gwasanaeth mwyaf addas, gan gynnwys o'r sector gwirfoddol, ar gyfer meysydd fel camddefnyddio cyffuriau ac alcohol, a sgiliau a dysgu troseddwr. Gall cystadleuaeth alluogi'r sector cyhoeddus i ddod o hyd i ffyrdd arloesol o fidio am wasanaethau: er enghraifft mae carchar y sector cyhoeddus wedi ffurfio partneriaeth â'r cwmni sector preifat MITIE i fidio am y naw carchar a gystadlir ar hyn o bryd.
- 21 Bydd ein cystadlu diweddaraf am wasanaethau carchardai yn rhoi arbedion o £21 miliwn dros gyfnod Adolygiad o Wariant y Llywodraeth hyd at 2014-15 drwy gontractau newydd ar gyfer tri carchar presennol. Mae carchar newydd arall, HMP Oakwood, yn cael ei ddarparu dros yr un cyfnod am £31 miliwn yn llai na'r gost a gymeradwywyd yn wreiddiol gan y Llywodraeth ddiwethaf.
- 22 Er ein bod yn cydnabod bod gwahaniaethau gwirioneddol rhwng y gwasanaethau carchardai a phrawf, credwn fod y dystiolaeth yn awgrymu bod manteision sylweddol o ymestyn y dull hwn i'r maes prawf mewn ffordd bwylllog a synhwyrol.

Ymestyn y cystadlu

- 23 Dan Ddeddf 2007 cyfrifoldeb yr Ysgrifennydd Gwladol yw sicrhau bod gwasanaethau prawf yn cael eu darparu. Fodd bynnag, oni bai ei fod yn penderfynu eu darparu'n uniongyrchol, mae ganddo bŵer eang i

⁶ *Choice and Competition in Public Services, A guide for policy makers*, Adroddiad a baratowyd ar gyfer yr OFT gan Frontier Economics, Mawrth 2010, OFT1214

contractio neu i wneud trefniadau eraill ag “unrhyw un” i’r pwrpas hwn. Mae ganddo hefyd bŵer i sefydlu Ymddiriedolaethau Prawf cyhoeddus y gallai contractio i ddarparu gwasanaethau prawf iddynt ar ei ran.

- 24 Bwriad Deddf 2007 oedd cyflwyno cystadlu llawer ehangach ar draws y gwasanaethau prawf. Fodd bynnag, ni chredwn fod y nod hwn wedi’i gwrdd hyd yma. **Felly, mae’r Llywodraeth am ddefnyddio’r sgôp a gynigir gan Ddeddf 2007 i agor allan mwy o wasanaethau prawf ar gyfer cystadleuaeth, gan gynnwys rhai agweddau ar reoli troseddwy.**
- 25 Dros amser rydym yn disgwyl cystadlu, lle bo’n bosibl ar sail talu yn ôl canlyniadau, ystod o wasanaethau sydd, ynghyd â’r contractau TG ac ystadau canolog, yn cyfrif am tua 60% o’r gyllideb flynyddol o £1 biliwn ar gyfer gwasanaethau troseddwy cymunedol. Mae’r rhain yn cynnwys:
- Gwasanaethau Gwneud lawn â’r Gymuned (Gwaith Di-dâl), Monitro Electronig, Llety a Chymorth Mechniaeth (yn amodol ar adolygu’r contractau); Adeiladau Cymeradwy; Canolfannau Ymbresenoli; Cyswllt â Dioddefwyr; Rhaglenni Achrededig; Gofynion Gweithgaredd; Goruchwyliaeth; a rhai agweddau ar Reoli Troseddwy.
- 26 Rydym eisoes yn gwneud cynnydd gyda chystadlu’r gwasanaethau. Mae ail-gystadlu’r gwasanaeth Monitro Electronig wedi’i gyhoeddi a disgwyliwn ddyfarnu’r contract Gwneud lawn â’r Gymuned cyntaf ar gyfer Llundain, drwy gystadlu, nes ymlaen eleni.
- 27 Ein nod yw gwneud cynnydd sylweddol o ran cystadlu rhagor o wasanaethau yn ystod y cyfnod Adolygiad o Wariant hwn (hyd at 2015). Byddwn yn ystyried union sgôp, dilyniant a chyflymdra ein rhaglen gystadlu gyffredinol, gan gynnwys sut y byddwn yn symud ymlaen gyda chystadlu Cynlluniau Gwneud lawn â’r Gymuned ar gyfer gweddill Cymru a Lloegr, yn ogystal â chystadlu gwasanaethau adsefydlu cyffredinol, wedi inni ystyried ymatebion i’r papur ymgynghori hwn. Bydd ein cystadlaethau’n parhau i fod yn unol â’r egwyddorion a gyflwynwn yn y Strategaeth ar Gystadlu Gwasanaethau Troseddwy.
- 28 Dros amser bwriadwn y bydd y rhan fwyaf o fusnes presennol yr Ymddiriedolaethau Prawf ar gael i’w gystadlu, heblaw cyngor i’r llys a rheoli troseddwy risg uchel y bwriadwn eu cadw yn y sector cyhoeddus (gweler paragraff 30 ac adran 7). Ni fwriadwn, o reidrwydd, drefnu’r gystadleuaeth hon mewn lotiau i gyfateb o ran maint a ffurf i’r 35 Ymddiriedolaeth Prawf bresennol. Efallai nad yw hyn yn cynnig model sy’n arbennig o effeithlon, a bydd ein dymuniad i weld y rôl gomisiynu’n cael ei datganoli ond yn cael ei wireddu os yw’r Ymddiriedolaethau yn ddigonol o ran maint a gallu i ysgwyddo’r rôl bwysig hon. Gall y gwahaniaeth o ran maint a graddfa’r Ymddiriedolaethau olygu y byddai’r cystadlu am hyd yn oed y rhan fwyaf o fusnes yr Ymddiriedolaethau llai yn anneniadol i’r farchnad.

Byddwn yn sicrhau bod ein cynigion yn galluogi gweithio effeithiol â phartneriaid lleol ac yn cryfhau'r broses o ddarparu gwasanaethau prawf yn lleol, fel yr amlinellir ymhellach yn adran 10.

- 29 Byddai Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) (TUPE) yn berthnasol i unrhyw staff a fyddai'n trosglwyddo o ganlyniad i gystadlu, a byddai egwyddorion "chwarae teg" yn parhau i fod yn berthnasol, fel a gadarnhawyd gan Brif Ysgrifennydd y Trysorlys ym mis Rhagfyr 2011.⁷

Cyngor i'r llysoedd

- 30 Mae Deddf 2007 yn darparu un eithriad i gystadlu. Mae'n cadw'r gwaith o "roi cymorth i unrhyw lys" ar gyfer yr Ymddiriedolaethau Prawf neu gorff cyhoeddus arall. Mae'r cyngor hwn yn bennaf yn cynnwys helpu dedfrydwyr i nodi'r ddedfryd fwyaf priodol ar gyfer troseddwr ac erlyn achosion lle torrir y dedfrydau hynny. Rydym yn cydnabod pe bai cyngor i'r llys yn cael ei roi gan gorff preifat neu wirfoddol y gallai fod gwrthdaro â buddiannau masnachol eraill a allai fod gan y corff hwnnw. O ganlyniad, **ni fwriadwn newid y cyfrifoldeb statudol presennol dros y gwaith hwn. Bydd rhoi cyngor i'r llysoedd yn parhau i fod yn gyfrifoldeb y sector cyhoeddus.**

⁷ http://www.hm-treasury.gov.uk/statement_cst_201211.htm

7. Cystadlu a rheoli troseddwr yn effeithiol

- 31 Mae rheoli troseddwr yn golygu:
- a) asesu risg o niwed troseddwr a'i risg o aildroseddu er mwyn rhoi cyngor i'r llysoedd a'r Bwrdd Parôl;
 - b) rheoli a lleihau'r risgiau hynny yn ystod y ddedfryd;
 - c) cynllunio'r gwaith o gyflawni dedfryd y troseddwr;
 - d) sicrhau bod y troseddwr yn derbyn y gwasanaethau neu'r ymyriadau iawn yn unol â'r cynllun dedfrydu;
 - e) monitro i sicrhau bod y troseddwr yn cydymffurfio â'r ddedfryd; gorfodi hyn lle bo angen (e.e. dychwelyd troseddwr i'r llys neu drefnu eu bod yn cael eu galw'n ôl i'r carchar); a
 - f) gwerthuso a ydyw amcanion y cynllun dedfrydu wedi eu cwrdd yn gyffredinol.
- 32 Cytunwn â'r Pwyllgor Cyfiawnder fod cyswllt wyneb yn wyneb â'r troseddwr yn greiddiol ar gyfer llwyddiant. Mae gan reolwyr troseddwr hefyd rôl hanfodol o weithio mewn partneriaeth â'r heddlu, y carchardai a'r gwasanaethau plant i amddiffyn y cyhoedd. Hefyd, rhaid iddynt weithio gydag awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill i gael mynediad at wasanaethau tai, hyfforddiant gwaith, cyffuriau, alcohol a iechyd meddwl i droseddwr fel rhan o'u hadsefydlu.

Ein dull o gystadlu gwasanaethau rheoli troseddwr

- 33 Credwn fod y manteision o gystadlu rheoli troseddwr yn fwy sylweddol o ran gwella canlyniadau, ansawdd y gwasanaethau a sicrhau gwerth gwell am arian. Mae hyn yn arbennig felly os yw rheoli troseddwr yn cael ei gystadlu ochr yn ochr â diwygio troseddwr. Mae enghreifftiau'n cynnwys gweithgareddau gorfodol (a elwir yn 'ofynion gweithgareddau penodol') fel cymryd rhan mewn addysg a hyfforddiant; a rhaglenni a dargedir yn benodol at leihau aildroseddu (a elwir yn rhaglenni achrededig). Byddai rhoi'r cyfrifoldeb dros reoli troseddwr i ddarparwyr yn golygu eu bod yn amgyffred yn well beth sydd ei angen i wneud gwahaniaeth gyda throseddwr unigol ac yn cefnogi'r berthynas un-i-un rhwng troseddwr a'i reolwr troseddwr sydd, fel y gwyyddom, yn hollbwysig i'w troi i ffwrdd o droseddu. Byddai hyn yn gwella gallu'r darparwyr i atal aildroseddu a'n gallu ninnau i'w dal i gyfrif am hyn.
- 34 Rydym yn benderfynol o beidio â rhoi diogelwch y cyhoedd yn y fantol. Lle mae penderfyniadau lles y cyhoedd pwysig i'w gwneud yng nghyswllt amddiffyn y cyhoedd neu – fel a welsom gyda rhoi cyngor i'r llysoedd – gyda dyrannu adnoddau, mae'n greiddiol nad yw'r rhain yn cael eu dylanwadu gan ystyriaethau masnachol neu wrthdaro budd posibl arall. Mae hyn yn cynnwys ystyried sut i daro'r cydbwysedd iawn

gyda chystadlu rheoli troseddwy'r a pha oblygiadau ymarferol a godir gan hyn.

- 35 **Dymunwn ddilyn dull synhwyrol a phwyllog wrth gyflwyno cystadlu yng nghyswllt rheoli troseddwy'r. Felly, cynigiwn gystadlu rheoli troseddwy'r risg isel yn unig, yn hytrach na'r sbectwm llawn o reoli troseddwy'r a nodir yn Neddf 2007.** Mae hyn eisoes yn cael ei dreialu ar raddfa lai gyda'r cynlluniau cymunedol peilot ar dalu yn ôl canlyniadau (gweler adran 9).
- 36 Cynigiwn hefyd gystadlu goruchwyliaeth ochr yn ochr â rheoli troseddwy'r. Tra bod gofynion goruchwyllo'n cael eu dosbarthu fel ymyriadau i adsefydlu troseddwy'r ac yn rhai y gall dedfrydwy'r ddewis eu rhoi ynghlwm wrth orchymyn llys, yn ymarferol ychydig iawn o wahaniaeth sydd rhwng goruchwyllo a rheoli troseddwy'r. Cyflawnir y ddau beth gan yr un bobl broffesiynol, gan helpu i greu perthynas gryfach gyda'r troseddwy'r ac osgoi dyblygu.
- 37 Felly, dan ein cynigion byddai Ymddiriedolaeth Prawf yn cyflawni asesiad cychwynnol o bob troseddwr ac yn penderfynu lefel y rheoli ar sail ei risg. Lle oedd rheoli troseddwy'r risg is wedi'i gystadlu yn yr ardal honno, byddai'r darparwr a gontractiwyd yna'n gyfrifol amdanynt. Byddai'r Ymddiriedolaeth Brawf yn parhau i reoli a goruchwyllo'r troseddwy'r risg uwch.
- 38 Ceisiwn farn hefyd ynghylch a ddylid cystadlu rheoli troseddwy'r risg is wedi eu rhyddhau o'r carchar ar drwydded. Mae gosod amodau unrhyw drwydded a phenderfynu a oes angen eu galw'n ôl i'r carchar yn benderfyniadau hollbwysig ar gyfer amddiffyn y cyhoedd. Byddai angen i'r trefniadau iawn fod yn eu lle i oruchwyllo'r broses briodol o bennu amodau trwydded. Byddai angen inni hefyd fod yn sicr y gallai staff sector cyhoeddus weithredu'n gyflym ar argymhellion i alw troseddwy'r a reolir gan ddarparwr arall yn ôl i'r carchar (o fewn 24 awr neu'n gynt mewn achosion brys mawr).
- 39 Mae ein cynigion yn rhagweld y bydd, yn y dyfodol, ystod ehangach o ddarparwy'r yn darparu gwasanaethau prawf, a allai greu cymhlethdod lle mae troseddwy'r yn destun Gorchmynion gyda gofynion lluosog, yn enwedig gydag achosion o dor-dedfryd. I ddiogelu yn erbyn y risg o wrthdaro budd, **cynigiwn fod yr Ymddiriedolaeth Prawf yn parhau i fod yn gyfrifol am benderfyniadau lles y cyhoedd pwysig yn achos pob troseddwr.** Mae'r rhain yn cynnwys: cyflawni'r asesiad risg o niwed a'r risg o aildroseddu cychwynnol; rhoi cyngor i'r llysoedd a'r Bwrdd Parôl (fel yr uchod); penderfynu'r lefelau angenrheidiol o reoli troseddwy'r; cyfrannu at benderfyniadau goruchwyllo a rheoli ynghylch achosion MAPPA; penderfynu ar achosion o dor-dedfryd a galw'n ôl i'r carchar; a diddymu dedfrydau'n fuan i droseddwy'r sy'n gwneud cynnydd da.

- C1. Beth yw'r prif faterion gyda chystadlu rheoli troseddwr a sut y dylid eu datrys? Er enghraifft, lle dylem daro cydbwysedd gyda phenderfynu pa mor bell i gystadlu rheoli troseddwr?**
- C2. Pa drefniadau fyddai'n helpu'r Ymddiriedolaethau Prawf orau i gymryd camau effeithiol yn erbyn troseddwr sy'n torri ei ddedfryd mewn achosion lle nad ydynt yn rheoli'r troseddwr yn uniongyrchol?**
- C3. Beth yw'r ffordd orau o gystadlu rheoli troseddwr sy'n cael eu rhyddhau i'r gymuned ar drwydded?**
- C4. Beth yw'r ffordd orau y gallwn sicrhau bod cystadlu mwy o wasanaethau prawf yn gwella'r trefniadau partneriaeth yn lleol, fel Rheoli Troseddwr yn Integredig?**

8. Comisiynu gwasanaethau prawf yn effeithiol

- 40 Mae comisiynu effeithiol yn gwbl greiddiol os ydym am gadw ffocws clir ar ganlyniadau a gwerth am arian. Mae hefyd yn allweddol i gefnogi'r cynnydd sylweddol mewn cystadlu, ac i sicrhau y darperir gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n ymatebol i flaenoriaethau lleol o ran risg ac anghenion troseddwr.
- 41 Ar hyn o bryd NOMS sy'n comisiynu gwasanaethau prawf. **Er mwyn cyflawni ein hamcanion rydym am weld rôl gryfach i Ymddiriedolaethau Prawf cyhoeddus fel cyrff comisiynu. Fel rhan o'u rôl gomisiynu ehangach, rydym yn rhagweld y byddai Ymddiriedolaethau:**
- a) yn derbyn a rheoli cyllidebau i ddarparu'r ystod cyfan o wasanaethau rheoli troseddwr yn y gymuned, gan gynnwys Monitro Electronig;
 - b) yn cystadlu gwasanaethau prawf penodol fel rheoli a goruchwyllo troseddwr risg is a gweithgareddau penodol;
 - c) yn gweithredu fel cyd-gomisiynwyr gyda phartneriaid lleol ar gyfer gwasanaethau eraill i droseddwr.
- 42 Dan ein cynigion byddai Ymddiriedolaethau Prawf yn parhau i fod yn gyfrifol i'r Ysgrifennydd Gwladol am leihau aildroseddu ac amddiffyn y cyhoedd. Byddent yn parhau i gyflawni cyfrifoldebau statudol yr Ysgrifennydd Gwladol o ran Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, MAPPA a dyletswyddau diogelu dan Ddeddf Plant 2004, ac yn cadw eu dyletswyddau statudol yng nghyswllt Timau Troseddwr Ifanc. Byddent hefyd yn cadw'r swyddogaethau darparu allweddol a nodir ym mharagraffau 30 a 37.
- 43 Mae'r cynigion hyn yn cwrdd ag amcan y Llywodraeth i ddatganoli mwy o gyfrifoldeb dros ddarparu canlyniadau o'r canol i'r rhai sy'n gyfrifol am wasanaethau rheng flaen. Bydd datganoli cyllidebau i'r Ymddiriedolaethau Prawf yn helpu i'w cymell i wneud y defnydd gorau o adnoddau ar draws y system drwy ddefnyddio eu gwybodaeth leol well.
- 44 Yn y tymor hirach, wrth i'r diwygiadau ehangach hyn ddatblygu, byddwn hefyd yn ystyried rhoi mwy o ddylanwad i'r Ymddiriedolaethau dros y gwasanaethau ystadau a dderbynnir a'r eiddo a ddefnyddir ganddynt. Gallai hyn helpu unrhyw drafodaethau cyd-leoli lleol gyda'r heddlu a phartneriaid eraill. Bydd y trefniadau cytundebol presennol gyda'r Ymddiriedolaethau ar gyfer rheoli cyfleusterau yn aros yn eu lle hyd nes y daw'r trefniadau hyn i ben yn 2013.
- 45 Ymddiriedolaethau ddylai fod yn y sefyllfa orau i gomisiynu gwasanaethau arbenigol neu sy'n fwy ymatebol ar lefel leol fel atebion i

droseddu yn eu hardaloedd, drwy weithio gyda phartneriaid lleol fel y Comisiynwyr Iechyd ac Awdurdodau Lleol a defnyddio darparwyr o'r sectorau gwirfoddol neu breifat. Bydd gan staff sy'n rheoli a goruchwyllo troseddwr yn uniongyrchol rôl allweddol. Bydd angen iddynt gyfateb risg ac anghenion troseddwr unigol i'r gwasanaethau a'r ymyriadau iawn ar ei gyfer. Drwy wneud hyn, rhaid iddynt gydbwysu'r gofynion dedfrydu i amddiffyn y cyhoedd, cosbi a diwygio troseddwr a sicrhau eu bod yn talu'n ôl i ddiodefwyr a chymdeithas yn gyffredinol.

- 46 Dylai dull mwy lleol o gomisiynu arwain at wasanaethau gwell i grwpiau o droseddwr sydd ag anghenion cymhleth, gan gynnwys merched sy'n troseddu. Mae'r Llywodraeth yn ymrwymedig i geisio datrys troseddu gan ferched – er lles yr unigolion dan sylw a chymdeithas yn gyffredinol. Mae ein papur ymgynghori ar ddedfrydu yn y gymuned yn nodi'n fanwl sut y byddwn yn sicrhau bod dedfrydau cymunedol nid yn unig yn cynnwys cosb ystyrllon ond hefyd yn helpu merched i roi sylw i'w hanghenion fel rhan o'r broses adsefydlu. I gefnogi hyn, o 2013-14 ymlaen, byddwn yn symud i ffwrdd o wasanaethau merched sy'n cael eu hariannu'n ganolog at gomisiynu lleol gan Ymddiriedolaethau Prawf. Bydd ein dull yn seiliedig ar ddarparu gwasanaethau rhyw-benodol targed a holistig ar lefel lleol, drwy weithio mewn partneriaeth â'r amryw byd o wasanaethau i ferched ar draws y wlad. Byddwn yn gofyn yn unswydd i'r Ymddiriedolaethau ddangos sut y byddant yn sicrhau y darperir gwasanaethau priodol sy'n cwrdd ag anghenion merched sy'n troseddu.
- 47 Gyda'n dull o gystadlu a chomisiynu, rydym yn ceisio taro'r cydbwysedd iawn rhwng datganoli a bod angen bod yn effeithlon drwy gyflawni arbedion maint. Bydd hyn yn golygu mai'r ffordd orau, o bosib, o gaffael rhai gwasanaethau, megis Monitro Electronig, fydd yn **genedlaethol** ac mewn lotiau mawr i sicrhau'r pris gorau a chysondeb ar draws y wlad.
- 48 Rydym yn rhagweld y bydd yr Ymddiriedolaethau Prawf yn gweithio o fewn y fframwaith cystadlu cyffredinol a nodir gan NOMS dan gyfraith gystadleuaeth yr Undeb Ewropeaidd i sicrhau tegwch. Disgwylir iddynt weithio'n gydweithredol â NOMS ac eraill i gomisiynu a chynllunio gwasanaethau, i ddatblygu manylebion ac i werthuso bidiau. Cynigiwn y byddai'r Ymddiriedolaethau yn dal yn gallu pwysu ar arbenigedd masnachol a chaffael NOMS a'r Weinyddiaeth Cyfiawnder i sicrhau effeithlonrwydd ac i osgoi dyblygu.

Y goblygiadau i nifer ac i drefniadaeth yr Ymddiriedolaethau Prawf

- 49 Bydd angen i nifer a maint yr Ymddiriedolaethau Prawf fod yn gynaliadwy yn y pen draw a bydd angen iddynt fod â digon o bwerau prynu yng ngoleuni'r newid pwyslais i'w rôl o fod yn ddarparwyr i fod yn gomisiynwyr yn bennaf. Mae angen galluoedd uwch-gomisiynu cryf i sicrhau bod gwasanaethau da a phriodol yn cael eu prynu i ddarparu'r ymyriadau priodol i leihau aildroseddu, rhywbeth yn ein barn ni sy'n

anodd ei wneud mewn sefydliad bach. O ganlyniad, rydym yn disgwyl efallai y bydd llai o Ymddiriedolaethau Prawf nag ar hyn o bryd.

- 50 Byddwn yn ystyried sut mae ein dull o gystadlu'n cyd-fynd â'r ffaith y bydd angen i'r Ymddiriedolaethau uno neu ailwampio fel y medrant weithio fel comisiynwyr cryfach neu gystadlu i ddarparu gwasanaethau drwy sefydlu swyddogaethau darparwyr ar wahân.
- 51 Derbyniwn y gallai fod sialensau sylweddol gyda chyflawni nifer optimaidd o Ymddiriedolaethau a byddem am weithio'n agos gyda'r Ymddiriedolaethau i gael pethau'n iawn. Rydym yn cydnabod rôl hanfodol gwasanaethau prawf yn lleol a byddwn yn sicrhau bod ein cynigion yn galluogi gweithio mewn partneriaethau yn lleol (gweler adran 10).

Gwahanu Ymddiriedolaethau Prawf oddi wrth wasanaethau a gystadlir

- 52 **Gall yr Ymddiriedolaethau Prawf ddewis cystadlu am wasanaethau. Yn yr achosion hyn, byddwn yn disgwyl iddynt ddod yn endidau ar wahân, annibynnol i'r Ymddiriedolaethau Prawf hynny sy'n gyfrifol am gomisiynu, rhoi cyngor i'r llysoedd, rheoli troseddwyd risg uwch a chymryd penderfyniadau lles y cyhoedd fel a ddisgrifir uchod. Credwn mai'r ffordd orau o gyflawni hyn fydd drwy sicrhau 'rhaniad llawn rhwng y prynwr a'r darparwr'.**
- 53 Mae'n bwysig gwahanu'r swyddogaethau prynu a darparu er mwyn osgoi gwrthdaro budd posibl; sicrhau bod gan ddarparwyr eraill sy'n cystadlu am wasanaethau ffydd yn nhegwch unrhyw broses tendro cystadleuol; fel y gellir datblygu'r farchnad; ac yn gyffredinol er mwyn sicrhau'r gwerth gorau i'r cyhoedd.
- 54 Yn achos ei gystadlaethau carchardai, mae NOMS yn cyflawni'r gwahanu hwn drwy greu "waliau moesegol" o fewn ei sefydliad, sy'n cyfyngu'n llym unrhyw wybodaeth a ddatgelir rhwng ei elfennau comisiynu a darparu. Ystyrir bod hyn yn briodol o ystyried maint y sefydliad ac aeddfedwydd cymharol y farchnad ar gyfer gwasanaethau carcharu.
- 55 Ond ar gyfer gwasanaethau prawf, bwriadwn gael **'rhaniad rhwng y prynwr a'r darparwr'**. O fewn fframwaith Deddf 2007, byddwn yn sicrhau bod gwahaniaeth clir rhwng yr Ymddiriedolaethau Prawf hynny sy'n parhau i fod yn gyfrifol am gomisiynu, rheoli troseddwyd risg uwch a chymryd penderfyniadau lles y cyhoedd, a'r Ymddiriedolaethau Prawf hynny sy'n dewis cystadlu i ddarparu gwasanaethau. Byddant yn endidau ar wahân, a byddwn yn adlewyrchu hyn drwy drefniadau cytundebol diwygiedig.
- 56 Credwn y bydd hyn yn sicrhau atebolrwydd cliriach, ffocws gwell ar asesu anghenion troseddwyd ac yn sicrhau y cyflawnir canlyniadau penodol. Bydd yn golygu y gall NOMS weithio gyda'r

- 57 Rydym am drafod gyda'r Ymddiriedolaethau Prawf a rhanddeiliaid eraill – a byddem yn disgwyl i'r Ymddiriedolaethau wneud yr un fath – i weld sut allai ein cynigion i gystadlu mwy o wasanaethau a rhoi ffocws cryfach ar gomisiynu weithio orau fel rhan o system brawf ddiwygiedig. Yn enwedig, rydym yn awyddus i ymgysylltu â'r Ymddiriedolaethau sydd eisoes yn ystyried sut i wahanu eu swyddogaethau comisiynu a darparu.

- C5. Beth fyddai'r cydbwysedd iawn i'w daro rhwng comisiynu gwasanaethau ar lefelau lleol a chenedlaethol a sut orau allwn ni daro'r cydbwysedd hwn?**
- C6. Beth yw'r prif faterion sy'n codi wrth wahanu rôl gomisiynu'r Ymddiriedolaethau oddi wrth y rôl o ddarparu gwasanaethau a gystadlir? Sut orau fyddai datrys y materion hyn?**
- C7. Sut allwn helpu'r Ymddiriedolaethau i ddatblygu'r galluoedd comisiynu a chaffael y bydd eu hangen arnynt yn y dyfodol?**
- C8. Sut orau allwn sicrhau bod anghenion penodol merched sy'n troseddu'n cael eu hystyried wrth gomisiynu gwasanaethau?**

9. Cyflwyno gwasanaethau prawf mwy amrywiol

- 58 Rydym eisiau adeiladu ar yr arloesi sy'n digwydd yn barod i gael y gorau allan o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i ddarparu gwasanaethau'n well. **Yn unol â'r Strategaeth Gystadlu am Wasanaethau Troseddwr, rydym am sicrhau marchnad amrywiol o ddarparwyr drwy gystadleuaeth deg. Byddwn yn annog y sectorau gwirfoddol, preifat a chyhoeddus i gymryd rhan, ynghyd â modelau newydd o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus fel cydfentrau, mentrau cymdeithasol a Gwasanaethau Cyhoeddus Cydfuddiannol.**
- 59 Mae amryw o wahanol fodolau ar gyfer darparu gwasanaethau troseddwr yn barod, yn amrywio o ddulliau aml-asiantaeth i Reoli Troseddwr yn Integredig a phrosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop a gynllunnir i fynd i'r afael â throseddu ymhlith troseddwr ifanc nad ydynt mewn addysg na gwaith. Rydym hefyd am weld cydweithrediad rhwng yr Ymddiriedolaethau Prawf presennol a'r sectorau gwirfoddol a phreifat wrth fidio i ddarparu'r cynlluniau Gwneud lawn â'r Gymuned a'r peilotiaid Talu yn ôl Canlyniadau.
- 60 Bwriad ein cynigion yw rhoi mwy o gyfle i'r sector gwirfoddol ddarparu gwasanaethau i droseddwr. Rydym yn cydnabod y bydd hyn yn cyflwyno sialensau penodol. Rydym am sicrhau bod ein trefniadau comisiynu'n gwastatáu'r cae chwarae ar gyfer y sector gwirfoddol yn unol â'r Compact newydd rhwng y Llywodraeth a chyrff gwirfoddol yn Lloegr. Lle nad yw'n bosibl na'n ddymunol agor y cystadlu allan yn uniongyrchol i fentrau llai, byddwn yn gweithio gyda darparwyr profiadol mwy i sicrhau bod ganddynt y cymhellion iawn i isgontractio gwaith i ddarparwyr arbenigol yn y sector gwirfoddol. Rydym yn annog cyrff gwirfoddol i ymateb i'r materion a godir yn yr ymgynghoriad hwn.
- 61 Mae'r Papur Gwyn ar Wasanaethau Cyhoeddus Agored yn nodi sut fydd gweithwyr yn y sector cyhoeddus yn derbyn Hawl newydd i Ddarparu, fel y medrant sefydlu Gwasanaethau Cyhoeddus Cydfuddiannol, a bidio neu ofyn am gael cymryd drosodd y gwasanaethau a ddarperir ganddynt. Mae Swyddfa'r Cabinet yn rhyddhau pecyn o gymorth i weithwyr yn y sector cyhoeddus, gan gynnwys Gwasanaeth Gwybodaeth i Gwmnïau Cydfuddiannol⁸ a chyllid ar gyfer cymorth wedi'i deilwrio i greu cwmnïau cydfuddiannol gwasanaethau cyhoeddus annibynnol. Mae hwn yn cynnig cymorth ymarferol i rai sy'n symud at fabwysiadu'r dulliau newydd hyn. Fel rhan o'r diwygiadau arfaethedig hyn, byddwn yn asesu'r potensial i roi mwy o gyfle i greu cwmnïau cydfuddiannol, gan gynnwys trefniadau lle mai'r staff sy'n berchennog ar ac yn ymgysylltu â gwasanaethau prawf. Rydym wedi

⁸ <http://mutuals.cabinetoffice.gov.uk/>

siarad yn barod gyda rhai Ymddiriedolaethau sydd â diddordeb mewn dulliau gwahanol o ddarparu a byddwn yn cynnig cymorth penodol i staff yn y sector cyfiawnder lle bo hynny'n briodol.

C9. Sut orau allwn ni annog a helpu busnesau bach a chanolig, a'r sector gwirfoddol, i gystadlu i ddarparu gwasanaethau prawf?

C10. Sut orau allwn ni helpu staff yn y sector cyhoeddus i greu cwmnïau cyd-fuddiannol a modelau eraill ar gyfer darparu gwasanaethau prawf?

Ffocws ar ganlyniadau

- 62 **Bwriadwn wneud mwy o ddefnydd o dalu yn ôl canlyniadau i newid y ffordd y comisiynir gwasanaethau, er mwyn darparu canlyniadau gwell i'r cyhoedd a sicrhau mwy o werth am arian.** Lle bo hynny'n bosibl, bydd ein cynigion yn trosglwyddo'r risg ariannol i'r darparwyr ac ond yn gwobrwyo'r rheini sy'n cyflawni lleihad mewn aildroseddu. I gefnogi'r dull hwn, bydd darparwyr o bob sector yn elwa o lai o fiwrocratiaeth a rhyddid o dargedau i ganolbwyntio ar yr hyn sy'n gweithio drwy gyflwyno dulliau newydd ac arloesol.
- 63 Rydym am gymhwyso egwyddorion talu yn ôl canlyniadau i bob darparwr erbyn 2015. Rydym yn rhedeg rhaglen gychwynnol o beilotiaid i brofi ein dull. Mae'r peilotiaid hyn eisoes wedi cychwyn mewn dau garchar preifat, gyda dau arall mewn carchardai sector cyhoeddus i ddilyn yn 2012. Rydym yn cyfrannu at wyth peilot adfer ar gyfer cyffuriau ac alcohol sy'n cael eu rhedeg gan yr Adran Iechyd ac rydym yn profi, drwy ddau beilot gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau, sut y gallwn roi mwy o anogaeth i ddarparwyr Rhaglenni Gwaith i leihau aildroseddu. Mae dull ailfuddsoddi cyfiawnder lleol yn cael ei brofi ym Manceinion Fwyaf ac yn Llundain.
- 64 Drwy ddau beilot arall, bwriadwn hefyd brofi'r dull talu yn ôl canlyniadau gyda rheoli troseddwr yn y gymuned. Bydd y peilotiaid hyn, sydd i gychwyn ar ddechrau 2013, yn cael eu dylunio a'u gweithredu gan Ymddiriedolaethau Prawf yng Nghymru, Swydd Stafford & Gorllewin Canolbarth Lloegr, mewn ymgynghoriad â NOMS a rhanddeiliaid lleol. Bydd y peilotiaid hyn yn cyd-fynd â'n cynigion ehangach i ddiwygio gwasanaethau prawf a'r ymgyrch i wella canlyniadau a gwerth am arian drwy ddatganoli mwy o'r penderfyniadau.

Peilotiaid talu yn ôl canlyniadau yng Nghymru a Swydd Stafford & Gorllewin Canolbarth Lloegr

Bydd y peilotiaid talu yn ôl canlyniadau yng Nghymru a Swydd Stafford & Gorllewin Canolbarth Lloegr yn rhoi cyfle inni brofi ymhellach rhai o'r egwyddorion allweddol a nodir yn y papur hwn, gan gynnwys dulliau o gystadlu rhai elfennau o reoli troseddwy, a rhannu'r rolau o gomisiynu a darparu gwasanaethau prawf yn glir. Byddant hefyd yn cynnig gwersi pwysig ar sut y gall y darparwyr presennol yn y sector cyhoeddus weithredu dan gytundebau sy'n fwy seiliedig ar ganlyniadau ac yn goleuo unrhyw ddefnydd ehangach o egwyddorion talu yn ôl canlyniadau.

Bydd y ddau beilot yn cael eu gwobrwyo yn ôl eu llwyddiant gyda lleihau aildroseddu ar gyfer cohortau penodol o droseddwy. Bydd y peilotiaid yn ymateb i anghenion lleol a grwpiau blaenoriaeth, er enghraifft merched, oedolion ifanc a throseddwy du a lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru. Byddant yn profi sefydlu endidau masnachol newydd, gan roi cyfle i Ymddiriedolaethau cyhoeddus weithio mewn partneriaeth breifat â chyrff heb fod yn y sector cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau troseddwy. Bydd hyn yn cynyddu hyblygrwydd masnachol ac yn helpu'r Ymddiriedolaethau i ddatblygu eu capasiti comisiynu a busnes.

- 65 Bydd y gwersi a ddysgir o'r peilotiaid hefyd yn annog Ymddiriedolaethau eraill i edrych ar ddulliau a modelau darparu tebyg yn unol â'n cynigion diwygio.
- 66 Ym mhob achos, ac ar draws pob sector, byddwn yn cadw ac yn cynyddu'r ffocws ar ganlyniadau. Lle na allwn drosglwyddo'r risg ariannol yn uniongyrchol, byddwn yn ceisio canfod ffyrdd eraill o gymell darparwyr i ddarparu canlyniadau.

C11. Beth yw'r ffyrdd mwyaf effeithiol o wella mwy ar wasanaethau ac ymestyn arloesi drwy dalu yn ôl canlyniadau?

Cynnal safonau wrth ddarparu gwasanaethau prawf

- 67 Mae prawf yn broffesiwn hynod werthfawr ac mae'n bwysig bod gan ei staff y sgiliau a'r cymwysterau priodol. Rydym eisoes wedi ehangu ar ddatblygiad proffesiynol prawf drwy'r Fframwaith Cymwysterau Prawf (PQF). Mae'r PQF yn cael ei ddilysu'n allanol ac mae ei ansawdd yn cael ei sicrhau. Mae'n cynnwys nifer o wahanol unedau sy'n cymhwyso ymarferwyr i reoli troseddwy sy'n cyflwyno lefelau amrywiol o risg. Nid yw'r cymhwyster wedi'i gyfyngu i unrhyw weithiwr penodol. Gan hynny bydd ymarferwyr yn gallu cwblhau'r unedau priodol ar gyfer lefel eu hymarfer presennol a dangos eu cymhwysedd ar draws gwahanol sectorau a chyda gwahanol grwpiau o droseddwy. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod gyda system a fyddai ag ystod ehangach o

ddarparwyr y byddai angen sicrhau'n gynyddol bod safonau'n cael eu cynnal, a bod llwybrau priodol ar gael ar gyfer datblygiad gyrfa, dysgu a symud ymlaen ar draws y sector. Byddem yn croesawu eich barn am sut orau y gallwn gefnogi datblygiad staff prawf proffesiynol yn y tymor hirach, datblygiad a fyddai'n gyson â'r cynigion diwygio a nodir yn y papur ymgynghori hwn.

- 68 Mae Prif Arolygydd Prawf EM yn adrodd i'r Ysgrifennydd Cyfiawnder ar ba mor effeithiol yw gwasanaethau prawf yng Nghymru a Lloegr. Cynigiwn gadw rôl statudol werthfawr yr Arolygiaeth gyda chyflawni arolygiadau, pwy bynnag sy'n cyflawni'r gwaith hwn, a bydd cylch gwaith yr Arolygydd yn ymestyn dros yr holl ddarparwyr gwasanaethau prawf a gystadlir, gan gynnwys y rhai fydd yn gyfrifol am reoli troseddwy'r risg is.

C12. Sut orau allwn ni gefnogi datblygiad parhaus y staff prawf proffesiynol, yn gyson â'n cynigion ar gyfer diwygio?

10. Cryfhau darpariaeth leol

- 69 **Rydym am gryfhau rôl gwasanaethau prawf lleol fel rheng flaen y gwaith o reoli troseddwy. Byddwn yn sicrhau bod ein cynigion yn hwyluso gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid lleol tra'n cefnogi blaenoriaethau lleol fel rhan o'r agenda diogelwch cymunedol gyffredin. Byddwn yn cefnogi cyd-gomisiynu gwasanaethau i droseddwy rhwng y gwasanaethau prawf a phartneriaid allweddol fel awdurdodau lleol, iechyd a'r heddlu.**
- 70 Mae gan y gwasanaeth prawf le unigryw ar draws y System Cyfiawnder Troseddol – mae'n weithredol yn y gymuned, yn y llysoedd, mewn carchardai ac yn gweithio'n agos â'r Heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron. Rydym yn cydnabod y rôl hanfodol bwysig y mae prawf yn ei chwarae gyda sicrhau bod partneriaethau lleol yn gweithio'n effeithiol. Mae ei rôl diogelwch cymunedol ehangach yn golygu ei fod yn bartner i ystod o asiantaethau eraill y tu allan i'r System Cyfiawnder Troseddol, sy'n cyflawni gwaith hanfodol i leihau aildroseddu. Mae'r rhain yn cynnwys awdurdodau lleol, gwasanaethau tai a chyflogaeth ynghyd â gwasanaethau cyffuriau, alcohol a iechyd eraill. Ar ei orau, gall y gwasanaeth prawf fod y 'glud' sy'n dal yr holl wasanaethau hyn wrth ei gilydd ar gyfer troseddwy.
- 71 Mae'r Papur Gwyn ar Wasanaethau Cyhoeddus Agored yn tynnu sylw at gred y Llywodraeth y dylai "pŵer gael ei ddatganoli i'r lefel isaf sy'n briodol". Os am lwyddo i gryfhau'r broses o ddarparu gwasanaethau'n lleol i gwrdd â blaenoriaethau lleol, tra'n lleihau nifer yr Ymddiriedolaethau Prawf hefyd efallai, bydd angen i'r Ymddiriedolaethau roi'r strwythurau iawn yn eu lle i gynnal y cysylltiadau pwysig hyn gyda'u partneriaid. Bydd hefyd angen inni ystyried y sylfaen o arweinyddiaeth a sgiliau prawf sydd ei hangen ar lefel fwy lleol.
- 72 **Rydym yn disgwyl, dan ein cynigion, y bydd y strwythurau darparu prawf yn parhau i fod yn gyson ag ardaloedd awdurdod lleol a'r heddlu, ac y bydd yr Ymddiriedolaethau'n parhau i sicrhau'r trefniadau i gynnal hyn.** Er y bydd yr Ymddiriedolaethau Prawf yn parhau i gyflawni eu cyfrifoldebau statudol ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol ar Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol a Byrddau Diogelu Lleol, ac o fewn MAPPA, a'u dyletswyddau statudol yng nghyswllt y Timau Troseddau leuenctid, rydym yn cydnabod bod cystadlu mwy o wasanaethau prawf yn cyflwyno'r posibilrwydd y bydd nifer fwy o bartneriaid preifat a gwirfoddol yn gweithio ar lefel lleol. Rydym eisiau gweithio gyda rhanddeiliaid dros y misoedd nesaf ar ddylunio'r cymhellion a'r trefniadau iawn i gefnogi cydweithio gwell rhwng asiantaethau lleol a darparwyr gwasanaethau prawf. Mae cynlluniau a benderfynir yn lleol, fel Rheoli Troseddwy yn Integredig, i

leihau troseddu, aildroseddu ac i reoli'r galwadau ar wasanaethau cyfiawnder troseddol yn hollbwysig i gyflawni hyn.

- 73 Eisoës, mae ystod o brosiectau'n annog asiantaethau lleol i weithio'n fwy effeithiol gyda'i gilydd, gan gynnwys drwy amrywiol beilotiaid talu yn ôl canlyniadau a Chyllidebau Cymunedol. Mae'r peilotiaid ailfuddsoddi cyfiawnder lleol ym Manceinion Fwyaf a rhannau o Lundain yn cynnig cymhelliad i asiantaethau lleol weithio'n agosach â'i gilydd drwy olygu y medrant rannu mewn unrhyw arbedion a wneir os ydynt yn llwyddo i leihau'r galwadau ar y llysoedd, y carchardai a phrawf. Gall y pedwar peilot Cyllideb Gymunedol Lefel Cymdogaeth hefyd fod yn gyfle i ardaloedd lleol brofi syniadau newydd ar gyfer cydweithio.
- 74 **Credwn am y tro y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol barhau i fod yn atebol am sicrhau y darperir gwasanaethau prawf, ond efallai y bydd potensial ymhen amser i gyrrff cyhoeddus eraill, fel awdurdodau lleol neu Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (gyda rôl statudol ehangach) fod yn gyfrifol am wasanaethau prawf.**
- 75 Gallai trosglwyddo'r cyfrifoldeb dros wasanaethau prawf i awdurdodau lleol yn y dyfodol gryfhau atebolrwydd lleol ymhellach, fel bod ardaloedd lleol yn gallu cyd-gysylltu'n well y gwaith o reoli troseddwy'r yn y gymuned gyda'r gwasanaethau sydd eisoes yn rhan o'u cylch gwaith, fel tai a gwasanaethau cymdeithasol.
- 76 Pan gyflwynir hwynt o fis Tachwedd 2012 ymlaen, bydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu'n dal y Prif Gwnstabiliaid i gyfrif am ddarparu plismona. Bydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu hefyd yn gallu comisiynu gwaith diogelwch cymunedol gan ystod o bartneriaid lleol. Bydd angen cael perthynas effeithiol, wedi'i diffinio'n lleol, rhwng Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a'r Ymddiriedolaethau Prawf os ydynt am gwrdd â'u dyletswydd statudol i gydweithredu. Gallai hyn gynnwys comisiynu gwasanaethau ar lefel heddlu, ac ar lefel awdurdod lleol gydag unedau heddlu ardal ac eraill. Ymhen amser, mae potensial i ystyried a allai Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (gyda rôl statudol ehangach) ddod yn atebol am wasanaethau prawf. Am y tro, **cynigiwn wneud Ymddiriedolaethau Prawf yn atebol, drwy eu trefniadau cytundebol â NOMS, am weithio gyda Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu.**
- 77 Mae gan Gymru a rhai rhanbarthau fel Llundain seilweithiau cyfiawnder troseddol penodol a allai gynnig sgôp ar gyfer mwy o gydweithio a chydweithredu. Yn Llundain, er enghraifft, mae'r heddlu a'r gwasanaethau prawf yn cyd-ffinio eisoes â strwythurau llywodraethu ehangach. Gallai gwahanol strwythurau yng Nghymru efallai effeithio ar sut allai'r gwasanaethau prawf ddod yn fwy integredig â phartneriaid cyhoeddus datganoledig. Byddwn yn ymatebol i'r amrywiol dirluniau partneriaeth yng Nghymru a Lloegr wrth ddatblygu ein cynigion.

- C13. Sut orau allwn ni gryfhau'r trefniadau darparu prawf lleol a'r sylfaen leol o arweinyddiaeth a sgiliau?**
- C14. Sut allwn ni wella gweithio mewn partneriaeth a chyd-gomisiynu ar lefel leol, yn enwedig os bydd gennym nifer lai o Ymddiriedolaethau mwy?**
- C15. Beth yw'r prif faterion sy'n codi pe bai awdurdodau lleol neu Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu efallai'n dod yn fwy atebol dros wasanaethau prawf ymhen amser?**

11. Y Camau Nesaf

Rydym yn awyddus i dderbyn ystod eang o ymatebion i'r ymgynghoriad hwn. Dros gyfnod yr ymgynghoriad bwriadwn hefyd ymgysylltu â'n rhanddeiliaid allweddol, yn enwedig yr Ymddiriedolaethau Prawf a'u staff, er mwyn deall yn well beth yw'r materion a'r sialensau fydd yn codi gyda dylunio a gweithredu'r cynigion hyn, ac wrth reoli newid.

Byddwn yn nodi ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad hwn - gan ystyried barn rhanddeiliaid - nes ymlaen eleni, ynghyd â chynigion mwy manwl ar sut y bwriadwn weithredu'r newidiadau arfaethedig. Rydym yn cydnabod bod materion pwysig i'w hystyried gyda sicrhau dilyniant ac wrth weithredu unrhyw newidiadau arfaethedig, a byddwn yn ystyried lle bydd angen trefniadau pontio i sicrhau bod yr Ymddiriedolaethau Prawf yn gallu parhau i ddarparu gwasanaethau prawf yn y tymor byr.

12. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

I gyd-fynd â'r ddogfen hon ceir Sgrinio Cychwynnol Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG) sydd i'w ddatblygu yn AEG fwy manwl pan ddaw cyfnod yr ymgynghori i ben. Byddem yn ddiolchgar am eich barn ynghylch beth fyddai effaith bosibl y cynigion hyn ar gydraddoldeb.

C16. Beth yn eich barn chi yw effaith y cynigion hyn ar y bobl hynny sydd â nodweddion a warchodir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (hil, rhyw, anabledd, tueddiad rhywiol, crefydd a chred, oed, priodas a phartneriaeth sifil, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth)?

C17. A ydych yn ymwybodol o unrhyw dystiolaeth ymchwil ac ystadegol sydd angen ei hystyried fel rhan o'n dadansoddiad o gydraddoldeb? Cofiwch nodi ffynonellau'r dystiolaeth ynghyd â'r effaith y credwch fyddai ganddynt ar y cynigion hyn.

Atodiad A – Geirfa o wasanaethau a thelerau prawf

Gwasanaeth / Term	Disgrifiad / Diffiniad
Rhaglenni ymddygiad troseddol / achrededig	Wedi eu dyfeisio i fynd i'r afael â diffygion penodol a nodir i fod yn arwain at ymddygiad troseddol, gan gynnwys trais domestig, sgiliau meddwl, troseddau rhyw a chamddefnyddio sylweddau. Mae llawer o'r rhaglenni'n cael eu diffinio'n genedlaethol ac yn cael eu hachredu gan y Panel Achredu Gwasanaethau Cywirol (CSAP).
Cyngor i'r llysoedd	Mae Ymddiriedolaethau Prawf yn darparu adroddiadau a chyngor i'r llysoedd i'w helpu i wneud penderfyniadau ynghylch troseddwr sy'n dod ger eu bron. Yn bennaf, mae'r rhain ar ffurf Adroddiadau Cyn-Dedfryd sy'n asesu'r risg o niwed a'r risg o aildroseddu a gyflwynir gan y troseddwr, gan awgrymu dedfrydau posibl
Gofyniad Triniaeth Alcohol (ATR)	Wedi'i dargedu at rai sy'n gaeth i alcohol a lle mae eu troseddau'n gysylltiedig â hynny. Y nod yw adsefydlu'r troseddwr drwy leihau neu ddileu ei ddefnydd o alcohol.
Adeiladau Cymeradwy	Hosteli yw'r rhain sy'n darparu goruchwyliaeth fwy manwl fel cyfraniad at reoli troseddwr sy'n cyflwyno risg sylweddol o achosi niwed difrifol. Gellir gweithredu preswyllo mewn Adeilad Cymeradwy fel amod ar drwydded ôl-ryddhau, fel gofyniad preswyllo mewn gorchymyn cymunedol neu orchymyn dedfryd ohiriedig, neu fel amod o fechnïaeth.
Gofyniad Canolfan Ymbresenoli	Wedi'i gyfyngu i droseddwr rhwng 18-24 oed, gyda'r nod o leihau eu risg o aildroseddu drwy gymryd rhan mewn rhaglen o weithgareddau yn y ganolfan ymbresenoli. Caiff y rhain eu rhedeg yn bennaf gan Swyddogion Mewn Gofal sy'n gweithio'n rhan amser, ac a reolir yn uniongyrchol gan NOMS.
Gwasanaethau Llety a Chymorth Mechnïaeth	Gwasanaethau llety a chymorth i bobl a fyddai fel arfer yn byw yn y gymuned ar fechnïaeth neu ar Gyrffyw Cadw yn y Cartref (HDC) ond nad oes ganddynt gyfeiriad addas fel arall – neu lle mae angen cymorth ychwanegol arnynt dros gyfnod eu mechnïaeth neu drwydded HDC.
Tor-dedfryd	Os yw troseddwr yn methu â chydymffurfio â gofynion ei ddedfryd, yna bydd achos tor-dedfryd yn gweld yr achos yn cael ei ddychwelyd i'r llys am gosb bellach.

Gwasanaeth / Term	Disgrifiad / Diffiniad
Gwneud lawn â'r Gymuned (Gwaith Di-dâl)	Lle mae angen i droseddwr gwblhau nifer benodol o oriau o waith er budd i'r gymuned. Bydd y darparwr yn chwilio am y cyfleoedd gorau i adsefydlu'r troseddwr. Gellir cyflawni hyn wrth i'r troseddwr ddysgu sgiliau cysylltiedig â gwaith drwy gwblhau'r lleoliad, neu drwy wella ei gymwysterau addysgol fel rhan o oriau'r gofyniad. Cyfeirir at y gofyniad fel "gwaith di-dâl" yn y ddeddfwriaeth berthnasol (Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003).
Partneriaeth Diogelwch Cymunedol	Partneriaeth statudol lle mae angen i asiantaethau allweddol weithio gyda'i gilydd ar lefel strategol i amddiffyn cymunedau lleol rhag troseddu. Mae Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yn gweithredu yn erbyn problemau megis ymddygiad gwrthgymdeithasol a chamddefnyddio cyffuriau ac alcohol.
Comisiynu	Asesu gofynion llysoedd, troseddwr, diffynyddion, dioddefwyr a chymunedau, cynllunio sut i gwrdd â'r gofynion hyn, sicrhau'r gwasanaethau iawn o'r ansawdd iawn am y pris iawn, ac adolygu sut y darperir y rhain a pha mor effeithiol ydynt gyda diwallu'r anghenion hynny.
Gorchymyn Cymunedol	Gorchymyn gan y Llys lle mae'n ofynnol i'r troseddwr gyflawni dedfryd yn y gymuned. Gall gynnwys un neu fwy o 12 o ofynion posibl.
Gwaith llys ar wahân i asesiadau ac adroddiadau	Darparu gwybodaeth a chyngor i'r llysoedd i gefnogi'r broses gyfiawnder mewn gwahanol ffyrdd, nid gyda dedfrydu'n unig. Mae staff cyswllt y llys yn bresennol i gynnal gwrandawriadau i ddiddymu gorchymyn yn fuan, gorfodi ac adolygu, i roi gwybodaeth i'r llys am ddiffynyddion sy'n hysbys i'r gwasanaeth prawf; ac yna i fwydo'r wybodaeth am yr ymddangosiad yn y llys yn ôl i gydweithwyr yn y timau maes.
Gofyniad Cyrffyw neu Fonitro Electronig	Fel arfer yn cael ei ddefnyddio i gosbi troseddwr drwy gyfyngu ei symudiadau ar adegau penodol. Gellir eu gweithredu fel gofyniad ar ei ben ei hun, fel un elfen o Orchymyn Cymunedol mwy cymhleth, fel amod ar drwydded neu fel Cyrffyw Cyfyngu i'r Cartref.
Gofyniad Adsefydlu ar ôl bod yn Gaeth i Gyffuriau	Wedi'i dargedu at droseddwr sy'n troseddu o ganlyniad i fod yn gaeth i neu gamddefnyddio cyffuriau anghyfreithlon. Y nod yw adsefydlu'r troseddwr drwy leihau neu ddileu ei ddefnydd o gyffuriau anghyfreithlon.
Wal foesebol	Gwahanfur gwybodaeth a roddir yn ei le i wahanu dwy ran o'r un sefydliad er mwyn osgoi unrhyw wrthdaro budd.
Gofyniad cadw allan	Gofyniad i gadw allan o le neu ardal benodol. Gellir ei gyfyngu i adegau penodol neu i wahanol lefydd ar wahanol adegau neu wahanol ddiwrnodau.

Gwasanaeth / Term	Disgrifiad / Diffiniad
Rheoli Troseddwy yn Integredig (IOM)	Fframwaith cyffredinol y mae partneriaid lleol, fel yr heddlu a'r gwasanaeth prawf, yn gweithio o fewn iddo i reoli'r troseddwy hynny sy'n achosi'r niwed mwyaf yn eu cymunedau. Lle'r partneriaid lleol yw nodi pa droseddwy sydd i'w rheoli yn y modd hwn.
Trwydded	Y telerau a'r amodau sy'n rhaid cydymffurfio â nhw yn achos carcharorion a ddedfrydwyd i fwy na 12 mis yn y carchar ac a ryddheir i'r gymuned ar gyfer ail ran eu dedfryd. Gweithredir a gorfodir y trwyddedau hyn gan yr Ymddiriedolaethau Prawf. Os yw'r troseddwr yn methu â chydymffurfio ag unrhyw amod ar y drwydded, mae'n agored i gael ei ddychwelyd i'r carchar.
Uned ddarparu leol (LDU)	Mae Ymddiriedolaethau Prawf yn cael eu trefnu'n Unedau Darparu Lleol, sy'n cyd-ffinio'n fras â ffiniau'r heddlu a'r awdurdodau lleol. Mae gan bob LDU uwch-reolwr sy'n gyfrifol am ymgysylltu lleol, am gomisiynu gwasanaethau troseddwy ac am drefnu'r timau rheoli troseddwy.
Panel / Trefniadau Amddiffyn y Cyhoedd Aml-Asiantaeth (MAPPA / MAPPP)	Gweithio mewn partneriaeth sy'n cael ei arwain gan yr heddlu a'r gwasanaeth prawf i oruchwylio, ar sail aml-asiantaeth, nifer fach o droseddwy peryglus yn y gymuned. Mae'n ofynnol i asiantaethau eraill, gan gynnwys Gwasanaeth Carchardai EM, awdurdodau lleol a'r gwasanaethau iechyd, hefyd gymryd rhan.
Gofyniad Triniaeth Iechyd Meddwl	I sicrhau bod y troseddwr yn derbyn triniaeth gyda golwg ar wella ei gyflwr iechyd meddwl a lleihau ei aildroseddu.
Rheoli troseddwy a Rheolwr Troseddwy	Strwythur rheoli achosion seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer troseddwy (oedolion) a ddedfrydwyd gan y llysoedd, sy'n darparu proses oruchwylio o'r dechrau i'r diwedd gan Reolwr Troseddwy enwebedig drwy gydol y ddedfryd. Mae'r Rheolwr Troseddwy yn penderfynu ar y cynllun dedfrydu ac yn cael cyswllt â'r holl asiantaethau sy'n cyfrannu at ofynion y ddedfryd i sicrhau y caiff ei darparu'n effeithiol a bod y cyhoedd yn cael eu hamddiffyn i'r eithaf.
Talu yn ôl canlyniadau	Dull sy'n talu darparwyr gwasanaethau yn ôl y canlyniadau a gyflawnir ganddynt, yn hytrach nag yn ôl y tasgau a gyflawnir. Os yw gwasanaeth yn aneffeithiol, adlewyrchir hyn yn y pris a delir.
Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu	Bydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn eu lle ym mhob heddlu yng Nghymru a Lloegr erbyn Tachwedd 2012. Byddant yn cael eu hethol yn lleol a byddant yn gyfrifol am ddal eu Prif Gwnstabl i gyfrif am holl weithgarwch eu heddlu. Bydd hyn yn golygu y bydd yr heddlu yn fwy uniongyrchol atebol i'w cymunedau.

Gwasanaeth / Term	Disgrifiad / Diffiniad
Gofyniad gweithgaredd a waherddir	Yn gofyn bod y troseddwr yn ymatal rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau a nodir yn y gorchymyn. Mae'r pwrpas yn un o warchod yn ogystal â chosbi. Gellir ei ddefnyddio fel gofyniad ar ei ben ei hun neu fel un o ddau neu fwy o ofynion, gan ddibynnu ar ba mor ddifrifol yw'r trosedd.
Rhaniad rhwng y prynwr a'r darparwr	Gwahanu'n ffurfiol comisiynu neu brynu gwasanaethau oddi wrth ddarparu gwasanaethau
Galw troseddwr yn ôl [i'r carchar]	Y broses o ddychwelyd troseddwr i'r ddalfa os yw ef neu hi'n methu â chydymffurfio ag unrhyw amod ar ei drwydded.
Gofyniad preswyllo	Gofyniad i breswyllo mewn lle penodol. Gallai fod yn rhan o amod trwydded ôl-garcharu, neu orchymyn cymunedol neu orchymyn dedfryd ohiriedig. Fel arfer bydd yn ei le oherwydd bod angen rheoli'r risgiau a gyflwynir gan y troseddwr, neu i ddarparu sefydlogrwydd i'r troseddwr. Gall y lleoliad fod yn Adeilad Cymeradwy, yn hostel, yn eiddo preifat neu'n eiddo awdurdod lleol.
Gofyniad gweithgaredd penodol	Er mwyn rhoi sylw i anghenion troseddegol i bwrpas adsefydlu a lleihau'r tebygolrwydd o aildroseddu, e.e. gofyniad i fynychu cwrs addysg / hyfforddiant.
Gofyniad goruchwyllo	Er mwyn 'hyrwyddo adsefydlu'r troseddwr', gofyniad cyffredinol yw hwn lle mae hyblygrwydd i roi sylw i ystod o ddiffygion, agweddau a phroblemau sy'n ysgogi'r ymddygiad troseddol, mewn sefyllfa un-i-un. Dros gyfnod perthnasol o oruchwyliaeth, rhaid i'r troseddwr fynychu apwyntiadau gyda'r Swyddog Cyfrifol (y rheolwr troseddwr) neu berson arall yn ôl penderfyniad y Swyddog.
Gorchymyn Dedfryd Ohiriedig	Gorchymyn gan y Llys lle mae'r troseddwr yn cyflawni dedfryd o garchar ond yn y gymuned, gyda'r bygythiad o'i garcharu ar unwaith os bydd yn aildroseddu neu'n methu â chydymffurfio â'r gofynion. Gall gynnwys un neu fwy o ofynion, o'r un grŵp o 12 sy'n berthnasol i'r Gorchymyn Cymunedol.
Cyswllt dioddefwyr	Mae Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr yn cysylltu mewn da bryd â dioddefwyr troseddau treisgar a rhywiol lle mae'r troseddwr wedi cael dedfryd o 12 mis neu fwy o garchar, neu ddedfrydau iechyd meddwl penodol, i roi gwybod iddynt am y camau allweddol yn nedfryd y troseddwr, ac i'w galluogi i wneud sylwadau ar unrhyw amodau yr hoffent eu gweld yn cael eu rhoi ynghlwm wrth unrhyw drwydded i'w hamddiffyn ac i dawelu eu meddwl.

Holiadur

Gellir cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn y ffyrdd a nodir yn yr adran 'Am yr Ymgynghoriad hwn' uchod.

Byddem yn croesawu ymatebion i'r cwestiynau canlynol sy'n codi o'r papur ymgynghori hwn.

1. Beth yw'r prif faterion gyda chystadlu rheoli troseddwr a sut y dylid eu datrys? Er enghraifft, lle dylem daro cydbwysedd gyda phenderfynu pa mor bell i gystadlu rheoli troseddwr?
2. Pa drefniadau fyddai'n helpu'r Ymddiriedolaethau Prawf orau i gymryd camau effeithiol yn erbyn troseddwr sy'n torri ei ddedfryd mewn achosion lle nad ydynt yn rheoli'r troseddwr yn uniongyrchol?
3. Beth yw'r ffordd orau o gystadlu rheoli troseddwr sy'n cael eu rhyddhau i'r gymuned ar drwydded?
4. Beth yw'r ffordd orau y gallwn sicrhau bod cystadlu mwy o wasanaethau prawf yn gwella'r trefniadau partneriaeth yn lleol, fel Rheoli Troseddwr yn Integredig?
5. Beth fyddai'r cydbwysedd iawn i'w daro rhwng comisiynu gwasanaethau ar lefelau lleol a chenedlaethol a sut orau allwn ni daro'r cydbwysedd hwn?
6. Beth yw'r prif faterion sy'n codi wrth wahanu rôl gomisiynu'r Ymddiriedolaethau oddi wrth y rôl o ddarparu gwasanaethau a gystadlir? Sut orau fyddai datrys y materion hyn?
7. Sut allwn helpu'r Ymddiriedolaethau i ddatblygu'r galluoedd comisiynu a chaffael y bydd eu hangen arnynt yn y dyfodol?
8. Sut orau allwn sicrhau bod anghenion penodol merched sy'n troseddu'n cael eu hystyried wrth gomisiynu gwasanaethau?
9. Sut orau allwn ni annog a helpu busnesau bach a chanolig, a'r sector gwirfoddol, i gystadlu i ddarparu gwasanaethau prawf?
10. Sut orau allwn ni helpu staff yn y sector cyhoeddus i greu cwmnïau cyd-fuddiannol a modelau eraill ar gyfer darparu gwasanaethau prawf?
11. Beth yw'r ffyrdd mwyaf effeithiol o wella mwy ar wasanaethau ac ymestyn arloesi drwy dalu yn ôl canlyniadau?
12. Sut orau allwn ni gefnogi datblygiad parhaus y staff prawf proffesiynol, yn gyson â'n cynigion ar gyfer diwygio?
13. Sut orau allwn ni gryfhau'r trefniadau darparu prawf lleol a'r sylfaen leol o arweinyddiaeth a sgiliau?

14. Sut allwn ni wella gweithio mewn partneriaeth a chyd-gomisiynu ar lefel leol, yn enwedig os bydd gennym nifer lai o Ymddiriedolaethau mwy?
15. Beth yw'r prif faterion sy'n codi pe bai awdurdodau lleol neu Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu efallai'n dod yn fwy atebol dros wasanaethau prawf ymhen amser?
16. Beth yn eich barn chi yw effaith y cynigion hyn ar y bobl hynny sydd â nodweddion a warchodir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (hil, rhyw, anabledd, tueddiad rhywiol, crefydd a chred, oed, priodas a phartneriaeth sifil, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth)?
17. A ydych yn ymwybodol o unrhyw dystiolaeth ymchwil ac ystadegol sydd angen ei hystyried fel rhan o'n dadansoddiad o gydraddoldeb? Cofiwch nodi ffynonellau'r dystiolaeth ynghyd â'r effaith y credwch fyddai ganddynt ar y cynigion hyn.

Diolch am gymryd rhan yn yr ymarferiad ymgynghori hwn.

Amdanoch chi

Defnyddiwch yr adran hon i ddweud wrthym amdanoch chi'ch hun

Enw llawn	
Teitl eich swydd neu ym mha gapasiti yr ydych yn ymateb i'r ymgynghoriad hwn (e.e. fel aelod o'r cyhoedd, ayb.)	
Dyddiad	
Enw'r cwmni / sefydliad (lle bo hynny'n berthnasol):	
Cyfeiriad	
Cod post	
Os hoffech inni gydnabod ein bod wedi derbyn eich ymateb, ticiwch y blwch hwn	<input type="checkbox"/> (ticiwch y blwch)
Cyfeiriad y dylid anfon y gydnabyddiaeth iddo, os yw'n wahanol i'r uchod	

Os ydych yn cynrychioli grŵp, rhowch enw'r grŵp a rhowch grynodeb o'r bobl neu sefydliadau yr ydych yn eu cynrychioli.

Manylion cyswllt / Sut i ymateb

Dylech anfon eich ymateb erbyn 22 Mehefin at:

Effective Probation Services

Ministry of Justice

Post Point 8.20

102 Petty France

Llundain SW1H 9AJ

Ffôn: 020 3334 6584

E-bost: effectiveprobationservices@justice.gsi.gov.uk

Copiâu ychwanegol

Mae copiâu papur ychwanegol o'r ymgynghoriad hwn ar gael o'r cyfeiriad hwn ac hefyd ar-lein yn <http://www.justice.gov.uk/index.htm>.

Gallwch ofyn am fersiynau o'r cyhoeddiad hwn mewn fformatau eraill oddi wrth effectiveprobationservices@justice.gsi.gov.uk

Cyhoeddi'r ymateb

Bydd papur yn crynhoi'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gyhoeddi yn yr hydref. Bydd y papur ymateb ar gael ar-lein yn <http://www.justice.gov.uk/index.htm>

Grwpiau cynrychiadol

Gofynnir i grwpiau cynrychiadol, wrth ymateb, roi crynodeb o'r bobl a'r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli.

Cyfrinachedd

Mae'n bosibl y bydd gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn cael ei chyhoeddi neu ei datgelu'n unol â deddfwriaeth mynediad at wybodaeth (yn bennaf, y rhain yw Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 1998 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych yn dymuno i'r wybodaeth a ddarparwch gael ei thrin yn gyfrinachol, dylech fod yn ymwybodol bod Cod Ymarfer statudol, dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef ac sy'n ymdrin â rhwymedigaethau cyfrinachedd, ymysg pethau eraill. O gofio hyn, byddai'n ddefnyddiol pe gallech esbonio inni pam yr ydych yn ystyried bod yr wybodaeth yr ydych wedi ei darparu yn wybodaeth gyfrinachol. Os cawn gais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn sicrhau y cedwir cyfrinachedd ym mhob sefyllfa. Ni fydd

ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ynndo'i hun, yn cael ei ystyried i fod yn rhwymo'r Weinyddiaeth.

Bydd y Weinyddiaeth yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data ac, yn y mwyafrif o amgylchiadau, bydd hyn yn golygu na fydd eich data personol yn cael ei ddatgelu i drydydd partïon.

Aseiad o Effaith

Mae Aseiad cychwynnol o Effaith yn dod law yn llaw â'r ddogfen hon, ac mae ar gael o'r cyfeiriad yn yr adran 'Sut i ymateb' uchod ac ar-lein yn <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/effective-probation-services>

Cwblheir aseiad cost a budd llawn o'r cynigion yn dilyn y cyfnod ymgynghori.

Y meini prawf ymgynghori

Mae'r saith maen prawf ar gyfer ymgynghori fel a ganlyn:

1. **Pryd i ymgynghori** – Dylid ymgynghori'n ffurfiol ar adeg pan fo sgôp i ddylanwadu ar ganlyniad y polisi.
2. **Cyfnod ymarferion ymgynghori** – Dylai ymgynghoriadau, fel arfer, bara o leiaf 12 wythnos, gan ystyried cyfnodau hirach pan fydd hynny'n ymarferol a synhwyrol.
3. **Eglurder y sgôp a'r effaith** – Dylai dogfennau ymgynghori fod yn glir ynghylch y broses ymgynghori, yr hyn sy'n cael ei gynnig, pa sgôp sydd i ddylanwadu arno a chost a manteision disgwylidig y cynigion.
4. **Hygyrchedd ymarferion ymgynghori** – Dylid cynllunio ymarferion ymgynghori i fod yn hygyrch i'r bobl hynny y bwriedir iddo eu cyrraedd, a dylent fod wedi'u targedu'n glir atynt.
5. **Baich yr ymgynghoriad** – Mae sicrhau na fydd yr ymgynghoriad yn un beichus yn hanfodol os yw'r ymgynghoriad i fod yn effeithiol ac os am gael y bobl yr anelir yr ymgynghoriad atynt i gyfrannu at y broses.
6. **Ymateb i'r ymarferion ymgynghori** – Dylid dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad a rhoi adborth clir i'r cyfranogwyr yn dilyn yr ymgynghoriad.
7. **Y capasiti i ymgynghori** – Dylai swyddogion sy'n cynnal ymarferion ymgynghori geisio arweiniad ar sut i gynnal ymgynghoriad effeithiol a rhannu'r hyn y maent wedi'i ddysgu o'r profiad.

Rhaid cynnwys y meini prawf hyn ym mhob dogfen ymgynghori.

Manylion cyswllt Cyd-gysylltydd yr ymgynghoriad

Rhaid anfon ymatebion i'r ymgynghoriad at y person cyswllt a enwir dan yr adran Sut i Ymateb.

Ond os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau ynghylch **proses** yr ymgynghoriad, dylech ffonio Sheila Morson ar 020 3334 4498, neu anfon e-bost ati consultation@justice.gsi.gov.uk.

Neu gallwch ysgrifennu i'r cyfeiriad isod:

**Ministry of Justice
Consultation Co-ordinator
Better Regulation Unit
Analytical Services
7th Floor, 7:02
102 Petty France
Llundain SW1H 9AJ**

